------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2014**

Amser:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Fay Buckle**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8041
pwyllgor.cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk


## Agenda

**(CYTUNODD Y PWYLLGOR YN Y CYFARFOD AR 8 GORFFENNAF 2014 I GYNNAL EITEM 1 YN BREIFAT)**

## 1 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law (09:00-09:15)

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:15)

## 3 Papurau i'w nodi (09:15 - 09:20) (Tudalennau 1 - 3)

**Cyllid addysg uwch** (Tudalennau 4 - 75)

**Strategaeth leoli Llywodraeth Cymru: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol (23 Mehefin 2014)** (Tudalennau 76 - 82)

**Cwrdd â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru : Llythyr gan Steve Thomas, CLILC (8 Gorffennaf 2014)** (Tudalen 83)

**Swyddfa Archwilio Cymru: Diweddariad ar Raglen Waith Gwerth am Arian yr Archwilydd Cyffredinol (9 Gorffennaf 2014)** (Tudalennau 84 - 87)

## 4 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Trafod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru (09:20-09:30) (Tudalennau 88 - 110)

PAC(4)-21-14 (papur 1)
PAC(4)-21-14 (papur 2)

## 5 Rheoli Grantiau yng Nghymru: Trafod gohebiaeth (9:30-9:40)

(Tudalennau 111 - 124)
PAC(4)-21-14 (papur 3)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (09:40)

Eitemau 7, 8, 9, 10 a 11

## 7 Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant Papur briffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (09:40-09:55)

## 8 Y Fenter Dwyll Genedlaethol 2012-13: Papur briffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (09:55-10:10)

## 9 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Cytuno ar yr adroddiad terfynol (10:10-10:30) (Tudalennau 125 - 160)

PAC(4)-21-14 (papur 4)

## 10 Adroddiad Blynyddol 2013/14: Cytuno ar yr adroddiad terfynol (10:30-10:45) (Tudalennau 161 - 190)

PAC(4)-21-14 (papur 5)

## 11 Blaenraglen waith: Hydref 2014 (10:45-11:00) (Tudalennau 191 - 193)

PAC(4)-21-14 (papur 6)

Eitem 3

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 8 Gorffennaf 2014** |
| Amser: | **09.00 - 11.03** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_08_07_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar AC (Cadeirydd)**
**William Graham AC**
**Mike Hedges AC**
**Alun Ffred Jones AC**
**Julie Morgan AC**
**Jenny Rathbone AC**
**Aled Roberts AC**
**Sandy Mewies AC**

Tystion:

**Peter Higson, BCUHB**
**Alun Jones, HIW**
**Geoff Lang, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Grace Lewis-Parry, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Trevor Purt, BCUHB**
**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru**

Staff y Pwyllgor:

**Meriel Singleton (Ail Clerc)**

Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)
Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

---

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol a Chymunedau (1 Gorffennaf 2014)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Papur briffio gan Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru

4.1 Cyflwynodd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wybodaeth i'r Pwyllgor am yr adroddiad ar y cyd a gyhoeddwyd ar 4 Gorffennaf 2014.

## 5 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Y wybodaeth ddiweddaraf am adroddiadau

5.1 Holodd y Pwyllgor swyddogion o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â'u trefniadau llywodraethu, sef Dr Peter Higson, Cadeirydd, yr Athro Trevor Purt, Prif Weithredwr, Geoff Lang, Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Sylfaenol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl, a Grace Lewis-Parry, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu.
5.2 Cytunodd Geoff Lang i anfon gwybodaeth bellach ynghylch y canlynol:

- Cyfanswm yr achosion yn ymwneud â diogelwch cleifion yn 2012-13 a sut y mae'r data hwn yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol;
- Y meysydd clinigol y mae Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru yn asesu eu perfformiad.

## 6 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Am fod amser yn brin, cytunodd yr Aelodau i drafod y dystiolaeth a gafwyd yn breifat ar ddechrau'r cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2014.

Owen Evans
Cyfarwyddwr Cyffredinol • Director General

Yr Adran Addysg a Sgiliau
Department for Education and Skills

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales

4 June, 2014

Dear Darren

**WAO report on Higher Education Finances**

Thank you for your letter dated 7 May seeking a response to the Welsh Audit office Report on Higher Education Finances.

As outlined by the Minister for Education and Skills in his press release dated the 21 November 2013, the Welsh Government welcomed the WAO's findings that the Finances of the Welsh Higher Education Institutions are in sound financial health and that both Welsh Government and Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW) have implemented policy around tuition fees effectively

The evidence contained in the report confirms that the tuition fee policy is affordable and sustainable and the WAO has also confirmed that HE institutions in Wales will continue to benefit from higher levels of income as a result of the reforms, while at the same time students who live in Wales will accrue significantly lower levels of debt than their counterparts in England.

The independent review of Higher Education Funding and Student Finance led by Professor Sir Ian Diamond met for the first time in April. I can confirm that the panel has received a copy of the WAO report and that I will arrange for the panel to receive a copy of the Welsh Government response to the findings and recommendations for consideration

Please find attached a copy of the Welsh Government's response to each of the relevant recommendations contained in the WAO report. Please note that I am expecting the Higher Education Funding Council for Wales to respond to recommendations 7 and 8.

…/..2

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel 02920 825381
owen.evans3@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

In addition, I can also confirm that the Minister for Education and Skills will respond to the Finance Committee's report on Higher Education Funding as requested by the 26 June.

Yours sincerely



**Owen Evans**

## Welsh Audit Office Report on Higher Education Finances

## Recommendations

In framing our recommendations, we note that some of the issues covered by the report are also subject to other reviews, and we have assumed that the Welsh Government and HEFCW will respond positively to any fresh issues of concern that arise.

We have also assumed that the Welsh Government and HEFCW will continue to update their modelling of the future costs arising from the tuition fees policy and that HEFCW will keep under review the impact – on institutions and on the delivery of Welsh Government policy objectives – of the changes it has made to the distribution of higher education funding.

In addition, we have assumed that in developing fee planning arrangements for 2015/16, HEFCW will take full account of findings from its evaluation of the delivery of institutions' 2012/13 fee plans.

## Recommendation 1

The fuller impact of the introduction of higher tuition fees and the Tuition Fee Grant will emerge over the next two to three years as more students who entered higher education before 2012/13 leave the system.

On 18 November 2013, the Welsh Government announced plans for a wide-ranging review that will include an evaluation of the impact of the current tuition fees policy. Amongst other things, we suggest that this review should address:

- the direct and opportunity costs arising from current policy;
- the impact on students, including from an equal opportunities perspective;
- the extent to which higher education institutions within Wales and beyond may be restricting access to financial support to Welsh-domiciled students because of the introduction of the Tuition Fee Grant;
- the impact on higher education institutions, particularly their financial health and competitive standing;
- comparison with the impact of policies adopted in other parts of the UK; and
- future policy options and their likely costs and benefits, including giving further consideration to the question of parity between full-time and part-time study.

<u>Welsh Government response</u>

Accepted – The review panel has already received a copy of the report. In addition, the Minister for Education and Skills will formally write to the chair of the panel informing him of the Welsh Government's response and requesting that the panel consider the issues identified when forming its own recommendations to the Minister in 2016.

**Recommendation 2**

The Welsh Government believes that five percent of students potentially eligible for the Tuition Fee Grant in 2012/13 did not take it up, although it has based its latest financial modelling on a more prudent assumption of 98 per cent take-up.

In the context of the centralisation of the student finance system through the Students Loan Company, we recommend that the Welsh Government:

- commissions work to improve its understanding of why some eligible students are not claiming the Tuition Fee Grant;
- reviews the processes that, together, aim to ensure that all students are fully aware of their entitlement both to the Tuition Fee Grant and to other loan and grant support; and
- at the level of individual institutions, compares Student Loans Company data on the number of students being supported by the Tuition Fee Grant with enrolment data, to identify any low local uptake rates.

Welsh Government response

Accepted

- the Welsh Government has asked the NUS (Wales) to undertake work to improve our understanding of why some students are not claiming the tuition fee grant. In addition, we have asked them to widen the scope of the work to include all Welsh Government grants (means tested and non means tested).
- we will formally request that the Student Loans Company undertake a review of its communication strategy (including the results of stakeholder feedback and customer satisfaction) during the first year of the modernised Student Finance Wales service to ensure that messages are communicated effectively.
- The Knowledge and Analytical Services Department of the Welsh Government will develop a system that will enable some further detailed analysis of areas of low take-up rates.

**Recommendation 3**

In its most recent (February 2013) financial modelling, the Welsh Government reduced its estimates of future costs associated with student loan and grant support, including the Tuition Fee Grant, by five per cent to take account of the historic accuracy of its forecasts. However, out-turn data for 2012-13 showed that the February 2013 modelling underestimated the costs of issuing student loans and the Tuition Fee Grant in 2012-13.

We recommend that the Welsh Government keeps the historic accuracy of its forecasts under review and that, in reporting estimated costs, it makes clear the adjustment for historic accuracy that has been applied and the basis for it.

Welsh Government response

Accepted - Student finance policy is underpinned by a sophisticated financial model which takes into account the current financial provision set aside for higher education in Wales as well as other sources of institutional income such as tuition fees. Forecasts are reviewed regularly as new or more robust data becomes available. Updated forecasts are produced by the Knowledge and Analytical Services Department at regular points during the financial year to ensure that the latest information regarding student behaviour, demographic trends, take-up rates, socio economic factors and other relevant data are taken into account.

Decisions to amend the assumptions contained in the model are based on advice from a Student Support Forecasting User Group (SSFUG) of officials which includes representatives from Higher Education Division, Knowledge and Analytical Services, Corporate Services Division and HEFCW.

In addition to discussions at the SSFUG, the high-level modelling assumptions are discussed at the Higher Education Funding and Student Finance Project Board. These Boards are made up of Welsh Government officials and key delivery partners including the Student Loans Company, HEFCW, Higher Education Wales and the Welsh Local Government Association.

The revised assumptions, data and macro economic factors are entered into the student finance model, which produces future forecasts.

**Recommendation 4**

The planned transfer of responsibility for processing student finance applications to the Student Loans Company should, in principle, help to address the weaknesses and inconsistencies that we have identified in respect of current local authority managed arrangements. We recommend that:

- the Welsh Government, in conjunction with HEFCW, specifies the control arrangements in respect of student finance applications (particularly in respect of eligibility controls) that it expects the Student Loans Company to apply and that the Welsh Government confirms these expectations as part of its revised service level agreement with the Student Loans Company; and
- that HEFCW participates as a full member of the Welsh Government's Student Finance Wales Modernisation project board.

Welsh Government response

Accepted

- the Welsh Government has worked with the Students Loans Company to draft, review and publish a suite of guidance documents for Wales. These documents are called the Guidance for Assessors and provide detailed explanations and scenarios of policy and assessment requirements. The SLC

has confirmed that it does not require any further guidance from the Welsh Government.

- HEFCW have agreed to be a member of the Student Finance Wales Modernisation project Board.

**Recommendation 5**

Both the Welsh Government's Higher Education Division and HEFCW have been managing the implementation of the Welsh Government's tuition fees policy at a time when staff numbers have been reducing in response to wider public finance constraints. Although there are associated costs, a robust system of regulation can deliver benefits to the sector, such as increasing the willingness of the banking sector to lend.

In the context of the ongoing development of the Higher Education (Wales) Bill and wider changes in the higher education regulatory framework, we recommend that:

- the Welsh Government and HEFCW consider how, together, they can make the best use of the resources and expertise at their disposal to support the development and implementation of Welsh Government higher education policy;
- the Welsh Government and HEFCW agree a clear protocol for HEFCW's future engagement in policymaking; and
- the Welsh Government assures itself that the new regulatory framework and the resources invested in its operation are proportionate to the size and scale of the higher education sector in Wales when compared with arrangements operating elsewhere in the UK.

**Welsh Government response**

Accepted

- We will continue to engage with HEFCW in the implementation and development of higher education policy. As part of the implementation plan for the Higher Education Bill we will develop a plan that will include joint working with the council and key stakeholders.
- We are working with HEFCW to develop a protocol for the Council's future engagement in policy making.
- We will ensure that the new regulatory framework and the resources invested therein will be proportionate to the size and scale of the HE sector in Wales. The HE bill was presented to the Assembly on the 19 May.

**Recommendation 6**

In June 2013, the Welsh Government published a new Policy Statement on Higher Education. Before this, HEFCW published a new corporate strategy, which included some new or revised targets for the higher education sector. The corporate strategy included a target that ‘the percentage change in the number of part-time students attending higher education courses in Welsh higher education institutions and further education institutions to be equal to, or greater than, the comparable figure for the UK’. It also referred to an overall outcome that ‘improved part-time learning opportunities are offered’. However, there is evidence of a significant downward trend in part-time student numbers in England.

We recommend that:

- the Welsh Government and HEFCW consider whether the targets HEFCW has set for the higher education sector in its 2013-2016 corporate strategy are consistent with the aims set out in the Welsh Government’s policy statement on higher education; and
- for part-time study and part-time student numbers, HEFCW seeks to incorporate measures that better reflect the intended outcome that ‘improved part-time learning opportunities are offered’.

**Welsh Government response**

Accepted

- We will consider whether the targets set by HEFCW in its corporate strategy are consistent with the aims of the Higher Education Policy Statement as part of the normal performance management and governance structure.
- We have made it clear to the Council that part time HE remains a Ministerial priority for the Welsh Government. We will consider the findings of this report alongside the Council’s position statement on part time provision before evaluating the adequacy of the targets.

**Recommendation 7**

HEFCW’s ‘Risk Review’ process includes an assessment of risk in six key areas: sustainability (which includes financial health), governance and management, estates, research and knowledge transfer, students and quality, and strategic direction. Based on its assessment across the six areas, HEFCW communicates a single holistic risk rating to individual institutions.

We recommend that

HEFCW includes the risk assessment evaluation for each of the areas it assesses in the letters that it issues to institutions to report its overall risk assessment. This would provide greater transparency and offer institutions, and their governors, greater insight into HEFCW’s evaluation.

**Recommendation 8**

Higher education institutions' financial planning and management arrangements are generally sound. However, we did identify variations in practice in a number of key areas and, in light of the financial challenges and uncertainties facing the sector, we consider that HEFCW is well placed to play a more active role in identifying, disseminating and promoting good practice.

We recommend that:

- HEFCW plays an active role in identifying, disseminating and promoting good practice; and
- institutions review the adequacy of their arrangements in the following areas:
    - cash flow forecasting, in particular whether they are suitable in light of future challenges;
    - the production of monthly management accounts on an accruals rather than commitment basis, particularly in light of the requirements imposed by banks within covenants attached to loans;
    - the extent to which course profitability is analysed; and
    - the skills needed to support business planning, covenant monitoring and increased levels of communication with banks and other funders in an uncertain and challenging environment.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
PAC(4)-21-14(ptn2)

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Cyllido Addysg Uwch

Mai 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8120
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a'i gyhoeddiadau blaenorol i'w chael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyf wng cyn belled ag y caiff ei atgynhy chu'n gywir ac na chaiff ei ddefn ddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Cyllido Addysg Uwch

Mai 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyllid**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. ôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno ad oddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyff yn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **6**

**1. Trosolwg** .......... **9**

Cylch gorchwyl .......... 9

Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru .......... 10

Gwybodaeth Ystadegol mewn cysylltiad ag Addysg Uwch .......... 10

**2. Cyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** .......... **14**

Tystiolaeth y Gweinidog .......... 17

Safbwynt y Pwyllgor .......... 17

**3. Polisïau Addysg Uwch yn Lloegr** .......... **19**

Tystiolaeth y Gweinidog .......... 19

Safbwynt y Pwyllgor .......... 19

**4. Llyfr Benthyciadau i Fyfyrwyr** .......... **21**

Tystiolaeth y Gweinidog .......... 22

Safbwynt y Pwyllgor .......... 23

**5. Effaith ar fyfyrwyr a dewisiadau myfyrwyr** .......... **24**

Tystiolaeth y Gweinidog .......... 25

Safbwynt y Pwyllgor .......... 26

**6. Ehangu Mynediad** .......... **27**

Tystiolaeth y Gweinidog .......... 28

Safbwynt y Pwyllgor .......... 28

**7. Astudio'n Rhan-Amser** .......... **30**

Tystiolaeth y Gweinidog .......... 31

Safbwynt y Pwyllgor .......... 31

**8. Ariannu Gwaith Ymchwil ac Astudiaethau Ôl-raddedig** .......... **33**

Tystiolaeth y Gweinidog .......... 35

Safbwynt y Pwyllgor .......... 35

**9. Cyllid ar gyfer pynciau drud** ........ **36**
Tystiolaeth y Gweinidog ........ 37
Safbwynt y Pwyllgor ........ 37
**10. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** ........ **38**
Tystiolaeth y Gweinidog ........ 38
Safbwynt y Pwyllgor ........ 38
**Tystion** ........ **40**
**Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **42**

## Rhagair y Cadeirydd

Fel Pwyllgor, mae'r ymchwiliad hwn wedi bod yn arbennig o ddiddorol inni; cawsom amrywiaeth o dystiolaeth gan ystod o ffynonellau, gan gynnwys myfyrwyr, cyrff sy'n cynrychioli myfyrwyr a sefydliadau addysg uwch.  Ar gyfer yr ymchwiliad hwn, hefyd, cynhaliwyd gwe-sgwrs â myfyrwyr, a bu hyn yn offeryn defnyddiol iawn o ran casglu tystiolaeth.

Un maes a oedd o ddiddordeb mawr i'r Pwyllgor oedd y ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniad myfyrwyr ynghylch addysg uwch.  Canfuwyd gennym bod costau byw yn aml yn effeithio ar ddewis myfyrwyr a bod angen i rai myfyrwyr weithio'n llawn amser, ar yr un pryd ag astudio'n llawn amser, i gyllido eu haddysg.

Maes arall a oedd yn peri syndod i'r Pwyllgor oedd y swm y mae sefydliadau addysg uwch yn ei wario ar ddenu myfyrwyr o dramor.  Er bod yr Aelodau yn deall yn llawn y manteision o gael myfyrwyr o dramor yn astudio mewn sefydliadau yng Nghymru, rydym am ofyn a allai peth o'r arian hwn gael ei ddefnyddio i ddenu myfyrwyr o Gymru i astudio mewn sefydliadau yng Nghymru.

Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi cyhoeddi adolygiad o gyllido addysg uwch, a gobeithio y bydd yr adolygiad hwn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godir yn yr adroddiad hwn.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llwyodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC a'r sefydliadau addysg uwch i fonitro'n agos, canfod ac asesu goblygiadau unrhyw newidiadau i dueddiadau yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol; newidiadau polisi yn Lloegr, ac unrhyw newidiadau yn nifer y ceisiadau newydd i brifysgolion Cymru.
(Tudalen 18)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro'r trefniadau cyllido ar gyfer y sector addysg uwch yn ofalus, nes y bydd yr Adolygiad yn cyhoeddi ei adroddiad interim cyntaf ac yn cyflwyno adroddiadau yn rheolaidd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel rhan o naratif y Gyllideb Ddrafft), ar unrhyw newidiadau a allai effeithio ar gyllido addysg uwch, er enghraifft unrhyw newidiadau o ran llif myfyrwyr yn drawsffiniol; nifer y myfyrwyr tramor; newidiadau polisi yn Lloegr ac ati. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanwl ar effaith y penderfyniadau polisi a wneir yn Lloegr, gan gynnwys yr hyn a benderfynir ar ôl etholiad cyffredinol 2015, ac yn arbennig i ba raddau y mae prifysgolion Lloegr yn denu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru:

- sy'n denu cyllid ychwanegol o dan bolisïau "ehangu mynediad";
- sy'n cael graddau uchel mewn arholiadau Safon Uwch, er enghraifft ABB; neu
- na allant ddod o hyd i gwrs perthnasol mewn sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu sut y gall gefnogi sefydliadau sydd wrth y ffin â Lloegr, er mwyn cystadlu'n fwy effeithiol â sefydliadau yn Lloegr, er enghraifft drwy adolygu cystadleuaeth leol am gyrsiau penodol; ariannu prosiectau cyfalaf ac ati. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu model manylach ar ddyledion myfyrwyr yn gyffredinol a'r llyfr benthyciadau i fyfyrwyr er mwyn amcangyfrif goblygidau hirdymor dyledion myfyrwyr. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r opsiynau ar gyfer bod yn rhan o ddatblygiadau pellach

model HERO yr Adran Busnes a Sgiliau a ddefnyddir i fodelu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr ac a ellir gwneud addasiadau i ystyried polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid myfyrwyr. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio:

a oes tystiolaeth nad oes angen i nifer gynyddol o raddedigion ad-dalu eu benthyciadau myfyrwyr am nad ydynt yn bodloni'r gofynion trothwy enillion angenrheidiol i wneud hynny, neu eu bod yn methu ag ad-dalu'r benthyciadau am resymau eraill,

a yw nifer y myfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i'w cwrs cyn ei gwblhau yn cynyddu? (Tudalen 23)

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ymwybyddiaeth o'r grant ffioedd dysgu yn gynharach (ym mlwyddyn 9, o leiaf) yn ystod addysg myfyrwyr. Dylid hefyd sicrhau cysondeb o ran sut y codir ymwybyddiaeth. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y myfyrwyr sy'n byw gartref tra maent yn astudio er mwyn canfod a yw'r tueddiad hwn yn cynyddu. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil i ganfod a yw costau byw yn peri mwy o bryder na chostau ffioedd dysgu i fyfyrwyr. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â CCAUC, fonitro faint o arian a gaiff ei wario ar fentrau ehangu mynediad a monitro a yw'r arian hwn yn cynrychioli gwerth am arian ac a yw'n bodloni'r nod o gynorthwyo myfyrwyr o gartrefi incwm is. (Tudalen 29)

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â CCAUC, fonitro nifer y myfyrywr addysg uwch rhan-amser yng Nghymru i ganfod a oes unrhyw newidiadau mewn tueddiadau. Yn ogystal â hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfeiriad polisi strategol interim clir yn cael ei bennu ar gyfer addysg uwch rhan-amser hyd at flwyddyn academaidd 2016/17, o leiaf. (Tudalen 32)

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â CCAUC, yn gweithredu pecyn ariannu cyfanol a strategol ar

gyfer astudio rhan-amser ac ar gyfer y Brifysgol Agored, ar gyfer blynyddoedd academaidd 2014/15 a 2015/16, o leiaf, fel strategaeth interim nes y bydd gwaith adolygiad yr Athro Syr Ian Diamond wedi'i gwblhau. (Tudalen 32)

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CCAUC i sicrhau bod pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn cael lefel fach, safonol o gyllid ymchwil, er enghraifft £500,000, os nad ydynt yn gymwys i gael unrhyw gyllid pellach o dan y fformiwla "rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy". (Tudalen 35)

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell cynnal adolygiad o ddarpariaeth ôl-raddedig, gan gynnwys trefniadau cyllido. (Tudalen 35)

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC fonitro effaith y gyfundrefn gyllido ffioedd/benthyciadau bresennol ar nifer y myfyrwyr sy'n astudio pynciau drud yng Nghymru a monitro safon y ddarpariaeth o bynciau drud. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso cynnydd a gwerth am arian y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. (Tudalen 38)

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio a yw cyfanswm nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi neu'n disgyn ac, os oes angen, yn archwilio:

- y rhesymau pam nad yw nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymaeg yn codi;
- y rhesymau pam nad yw'r holl fyfyrwyr sydd wedi dilyn addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i astudio cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg;

a chytuno ar gynllun gweithredu gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael ag unrhyw drafferthion. (Tudalen 38)

# 1. Trosolwg

1. Yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2013, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i gyllido Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, effaith ariannol polisi grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru ar sefydliadau addysg uwch a myfyrwyr yng Nghymru, ac a yw Llywodraeth Cymru'n darparu gwerth am arian yn y maes hwn.

**Cylch gorchwyl**

2. Gan nad yw'r polisi cyllido Addysg Uwch rhan-amser yn dod i rym tan yn ddiweddarach yn 2014, penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio i gychwyn ar gyllido Addysg Uwch amser llawn. O ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, ehangwyd cwmpas yr ymchwiliad i gynnwys cyllido Addysg Uwch rhan-amser.

3. Roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys, yn fras, dair ffrwd incwm ar gyfer cyllido sefydliadau addysg uwch, a rôl cyllid yn y dewisiadau a wneir gan fyfyrwyr:

- Ymchwil – Pa mor effeithiol yw sefydliadau addysg uwch o ran sicrhau incwm ar gyfer gwaith ymchwil, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwaith ymchwil gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).
- Incwm a chymorth ar gyfer ffioedd dysgu - Pa effaith ariannol y mae'r polisi ffioedd dysgu newydd, a gyflwynwyd yn 2012, wedi'i chael, sy'n caniatáu i sefydliadau addysg uwch godi hyd at £9,000 y flwyddyn ar fyfyrwyr am gyrsiau addysg uwch, a beth yw goblygiadau ariannol grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru?
- Cyfleoedd eraill am incwm, neu fygythiadau eraill i incwm - Pa mor bwysig i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yw'r ffrwd o incwm o ffioedd dysgu a geir gan fyfyrwyr sy'n hanu o'r tu allan i Gymru, gan gynnwys myfyrwyr tramor, a beth yw canlyniadau ariannol newidiadau eraill yn y farchnad addysg uwch, yn awr neu yn y dyfodol, gan gynnwys cyflwyno darparwyr preifat?

Dewisiadau myfyrwyr - Pa ystyriaethau ariannol sydd gan fyfyrwyr pan fyddant yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen i addysg uwch, a beth yw effaith grantiau ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru ar ddewis yr unigolyn?

**Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru**

4. Ddydd Iau 19 Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Gweinidog ei fod yn sefydlu Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru, i gael ei gadeirio gan yr Athro Syr Ian Diamond ac y byddai dwy ran i strwythur yr adolygiad.[1]

5. Bydd yr Athro Syr Ian Diamond yn llunio crynodeb ffeithiol o'r dystiolaeth a gaiff ei chasglu gan y tîm yn ystod yr hydref 2015. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol, gan gynnwys yr argymhellion terfynol, erbyn mis Medi 2016. Bydd blaenoriaethau'r adolygiad yn cynnwys:

- ehangu mynediad - sicrhau mai ehangu mynediad yw amcan canolog unrhyw system yn y dyfodol, a'i bod yn system flaengar a theg;
- cefnogi anghenion sgiliau Cymru;
- cryfhau darpariaeth ran-amser a darpariaeth ôl-raddedig yng Nghymru; a
- chynaliadwyedd ariannol hirdymor.

**Gwybodaeth Ystadegol mewn cysylltiad ag Addysg Uwch**

6. Ar 24 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fwletin Ystadegol o dan y teitl Universities and Colleges Admissions Service (UCAS) Statistics 2013 Entry.[2] Mae'r bwletin hwn yn dadansoddi data UCAS mewn cysylltiad ag ymgeiswyr a gafodd eu derbyn ar gyrsiau gradd a HND llawn amser yn hydref 2013 i sefydliadau addysg uwch yn y DU.[3]

**Ymgeiswyr i sefydliadau yng Nghymru**

7. Ym mlwyddyn academaidd 2013, cafodd 25,511 o ymgeiswyr eu derbyn gan sefydliadau yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 5.7% o'i gymharu â 2012 ac yn wahanol i'r gostyngiad o 8.1% mewn ceisiadau rhwng 2011 a 2012.

---


[1] Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, Datganiad ar yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, 19 Chwefror 2014

[2] http://wales.gov.uk/docs/statistics/2014/140424-universities-colleges-admissions-service-statistics-2013-en.pdf [fel ar 1 Mai]

[3] UCAS, UCAS Undergraduate 2013 End of Cycle report, Rhagfyr 2013 [fel ar 6 Mai 2014]

8. Ychydig o dan hanner (47.8%) o'r holl geisiadau a dderbyniwyd gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Mae'r gyfran hon 1.4 pwynt canran yn is nag yn 2012.

**Ffigur 1: Ymgeiswyr a dderbyniwyd i sefydliadau yng Nghymru yn ôl y wlad o lle maent yn hanu, a'r flwyddyn mynediad; 2000-2013**





**Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Universities and Colleges Admissions Service (UCAS) Statistics 2013 Entry**

## Ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru

9. Yn 2013, cafodd 19,663 o ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru eu derbyn i sefydliadau'r DU. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1.8% ers 2012. Cafodd 62% o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru eu derbyn i sefydliadau yng Nghymru, sef yr un canran ag yn 2012.

**Ffigur 2: Ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru yn ôl gwlad y sefydliad â'u derbyniodd a'r flwyddyn mynediad; 2000-2013**




**Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Universities and Colleges Admissions Service (UCAS) Statistics 2013 Entry4**

## Sefydliadau unigol

10. Gellir cael gafal ar ddata derbyn ar gyfer sefydliadau unigol ar wefan UCAS ar gyfer 2009/10 i 2013/14[5]. Mae'r data hwn yn dangos mai Prifysgol Glyndŵr welodd y cynnydd canrannol mwyaf yn nifer y myfyrwyr rhwng 2012 a 2013, sef 31.5%. I'r gwrthwyneb, gwelodd Prifysgol De Cymru (Prifysgol Cymru, Casnewydd fel ag yr oedd) ostyngiad o 14.9% yn y derbyniadau yn ystod yr un cyfnod.

**Ffigur 3: Derbyniadau gan sefydliadau yng Nghymru fesul blwyddyn fynediad; 2009 i 2013**

[4] http://wales.gov.uk/docs/statistics/2014/140424-universities-colleges-admissions-service-statistics-2013-en.pdf [fel ar 1 Mai]
[5] UCAS, Acceptances by institution, domicile group and entry year, Rhagfyr 2013 [fel ar 5 Mai 2014]

| | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Newid canrannol rhwng 2012/13a 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 2,935 | 2,820 | 3,310 | 2,710 | 2,520 | -7.0 |
| Prifysgol Bangor | 2,745 | 2,445 | 2,415 | 2,355 | 2,395 | 1.7 |
| Prifysgol Caerdydd | 5,330 | 5,000 | 5,345 | 5,565 | 6,035 | 8.4 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (UWIC) | 2,635 | 2,595 | 2,840 | 2,670 | 2,895 | 8.4 |
| Prifysgol Glyndŵr | . | . | 935 | 730 | 960 | 31.5 |
| Prifysgol De Cymru (Prifysgol Cymru, Casnewydd fel ag yr oedd) | 1,415 | 1,530 | 1,445 | 1,140 | 970 | -14.9 |
| Prifysgol Abertawe | 3,525 | 3,380 | 3,470 | 2,845 | 3,590 | 26.2 |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe (UWTSD) | 1,530 | 1,245 | 1,480 | 1,405 | 1,280 | -8.9 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 610 | 595 | 1,155 | 820 | 770 | -6.1 |

Ffynhonnell: UCAS, Acceptances by institution, domicile group and entry year, December 2013 [fel ar 5 Mai 2014] Nid yw'r data ar gael

## 2. Cyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

11. Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd CCAUC y dyraniadau cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14, a hon yw ail flwyddyn y pontio i'r system newydd o ariannu a ffioeddd myfyrwyr. Bydd CCAUC yn dyrannu £382 miliwn (cynnydd o 6.5 y cant o 2012/13) o gyllid i Addysg Uwch ym mlwyddyn ariannol 2013/14 a fydd yn cynnwys:[6]

- Amcangyfrif £117 miliwn mewn taliadau grant ffi i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru;
- £71 miliwn ar gyfer ymchwil ansawdd;
- £48 miliwn ar gyfer darpariaeth israddedig a TAR llawn amser drwy'r "Gronfa Buddsoddi Gyhoeddus", er enghraifft ar gyfer mynediad a chadw, recriwtio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr anabl a recriwtio myfyrwyr i feysydd pwnc blaenoriaeth;
- £46 miliwn ar gyfer darpariaeth addysgu rhan amser a darpariaeth ôl-raddedig a addysgir;
- £5 miliwn ar gyfer ymchwil ôl-raddedig;
- £39 miliwn ar gyfer dyraniadau strategol a menter; a
- £6 miliwn ar gyfer arloesi ac ymgysylltu.[7]

12. Mae CCAUC yn amcangyfrif y bydd yn gwneud taliadau o tua £50 miliwn mewn taliadau grantiau ffioedd i sefydliadau Addysg Uwch yng ngweddill y DU ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio y tu allan i Gymru.

13. Mae CCAUC yn amcangyfrif hefyd y bydd prifysgolion yng Nghymru yn cael tua £87 miliwn am ffioedd dysgu ychwanegol a deilr gan fyfyrwyr o weddill y DU. Ni chaiff yr arian hwn ei dalu drwy CCAUC ac nid yw wedi'i gynnwys yng nghyllid CCAUC o £382 miliwn ar gyfer 2013/14.[8]

14. Ar 21 Tachwedd 2013, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei hastudiaeth gwerth am arian o ran cynllunio a rheoli ariannol yn y sector addysg uwch. Daeth yr adroddiad i'r casgliad:

---

[6] Datganiad i'r Wasg, CCAUC, Cyllid ar gyfer addysg uwch yn 2013/14, 10 Ebrill 2013
[7] Datganiad i'r Wasg, CCAUC, Cyllid ar gyfer addysg uwch yn 2013/14, 10 Ebrill 2013, tudalen 2 [fel ar 15 Ebrill 2013]
[8] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)HEF07

"Ar y cyfan, mae sefydliadau addysg uwch Cymru mewn sefyllfa ariannol gadarn ac mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi rhoi polisi ffioedd dysgu ar waith yn effeithiol (...) gallai Llywodraeth Cymru fod wedi gwneud mwy i arfarnu opsiynau polisi ar ffioedd dysgu ddiwedd 2010, cyn rhoi'r trefniadau cyfredol ar waith ar ddechrau blwyddyn academaidd 2012/13, a bod y costau a amcangyfrifir wedi cynyddu ers cyhoeddi'r polisi."[9]

15. Mae Adroddiad SAC yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gyflym i benderfyniad Llywodraeth y DU i sefydlu ffioedd addysgu uwch yn Lloegr, ond roedd ei gwerthusaid o opsiynau polisi a'r potensial i ystyried newidiadau i'w rhagdybiaethau yn gyfyngedig. Mae'r adroddiad yn nodi y rhagwelir, bellach, y bydd cost y Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer 2012-13 i 2016-17 yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn 2010, gan godi 24 y cant o £653 miliwn i £809 miliwn.

16. Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Brifysgol Caerdydd am ddiffyg cyllido wrth i fyfyrwyr sy'n rhan o'r gyfundrefn ariannu newydd (h.y. ffioedd dysgu uwch) weithio'u ffordd drwy'r system.[10]

17. Fodd bynnag, roedd y prifysgolion a roddodd dystiolaeth yn cytuno â rhagolygon CCAUC bod y cyllid cyffredinol ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru yn codi, yn dilyn cwymp yn 2012/13, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Loegr a ddaw i astudio mewn prifysgolion yng Nghymru.[11] Clywodd yr Aelodau, hefyd, bod "enillwyr a chollwyr" yn y sector, gyda rhai sefydliadau yn gwneud yn well nag eraill.[12]

18. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan brifysgolion, pwysleisiwyd bod y model cyllido presennol yn peri ansicrwydd o ran yr incwm ar gyfer pob sefydliad unigol gan fod cyllid yn dibynnu ar nifer y myfyrwyr a gaiff eu recriwtio ganddynt bob blwyddyn. Nodwyd hefyd bod y cyllid yn seiliedig ar ffioedd myfyrwyr (a gaiff eu cyllido fel arfer gan

---

[9] Swyddfa Archwilio Cymru, Datganiad i'r Wasg - Addysg Uwch Cymru mewn sefyllfa ariannol 'gadarn' a'r Polisi Ffioedd Dysgu'n cael ei weithredu'n dda, 21 Tachwedd 2013 [fel ar 21 Tachwedd 2013]
[10] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)HEF06
[11] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraffau 168, 170
[12] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraff 168

ddyledion/benthyciadau myfyrwyr) yn hytrach na grantiau'r llywodaeth.[13]

19. Nid oedd Aelodau'r Pwyllgor wedi synnu clywed y byddai'n well gan brifysgolion Cymru i gyllid Llywodraeth Cymru flaenoriaethu'r sector addysg uwch yng Nghymru, yn hytrach na chefnogi prifysgolion Lloegr o ganlyniad i ddewis myfyrwyr a thaliadau grantiau ffioedd myfyrwyr. Roedd y sefydliadau, fodd bynnag, yn cydnabod fod hwn yn faes anelwig. Dywedodd Michael Scott o Brifysgol Glyndŵr:

> "I want to come back to this whole business of Welsh students, really, and the money following the students and going into the universities. We want Welsh students to come to Welsh universities and we want them to be proud of going to Welsh universities. Therefore, the universities have to be financed correctly… If we can find an incentive whereby Welsh students are encouraged to go to Welsh universities, which might bring more money into Welsh universities and allow a greater capital investment, for example, then that will start the ball rolling over a period of time. If you have an incentive at the moment that Welsh students are going into English universities that have more money and more realisation in terms of capital, you are just going to get a decline in the way in which Welsh universities are perceived.
>
> "I do not want to get into a long-term situation whereby we are disadvantaging Welsh students from having an experience outside of Wales, because that is not what we want Wales to be; we want Wales to look outwards. However, we have to accept a situation whereby there is certain underfunding. There is a funding gap between us and England, between our universities—whether it be Cardiff or Glyndŵr, and universities across the border. One thing, for the moment, that we could look at would be to say, 'Okay, if you are going to a Welsh university, you will be funded; if you are going to an English university, you will not be funded, or you will only be funded by 10% or 20%, or whatever', just to try to equal it out, so that we can build up the reputation of all of the universities in Wales for

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, FIN(4)HEF01, FIN(4)HEF03, FIN(4)HEF06

what we do and for the missions that we do. That is what we have to do."[14]

### *Tystiolaeth y Gweinidog*

20. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y polisi cyllido presennol yn gynaliadwy a'i fod wedi'i gyllido'n llawn, nid yn unig ar gyfer y Cynulliad presennol, ond o leiaf tan 2020.[15]

21. Dywedodd y Gweinidog fod cyfarfodydd rheolaidd o grŵp arbenigol yn cadw llygad craff ar y sefyllfa gyllido ar gyfer addysg uwch, a bod y costau a chynaliadwyedd hirdymor y polisi yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y llif trawsffiniol o fyfyrwyr ei fonitro i ganfod unrhyw dueddiadau sy'n datblygu ac unrhyw effaith bosibl ar incwm ar gyfer y sector.[16]

22. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd yr adolygiad yn cyflwyno adroddiad ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2016 oherwydd natur cymhleth a chyfnewidiol y maes Addysg Uwch. Dywedodd hefyd y gallai newidiadau gael eu gwneud i bolisi Addysg Uwch yn Lloegr ar ôl etholiad cyffredinol 2015. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gobeithio y byddai'r adolygiad hwn yn para cenhedlaeth o ran y modd y caiff cyllid Addysg Uwch ei drefnu.[17]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

23. Er bod y Pwyllgor yn cytuno bod lefelau cyllido yn cynyddu yn gyffredinol, mae'n nodi'r dystiolaeth, hefyd, bod y cyllid presennol wedi arwain at rai canlyniadau nas bwriadwyd:

- mae mwy o gystadleuaeth rhwng prifysgolion Cymru a Lloegr, yn arbennig y rhai sydd wrth y ffin, fel Glyndŵr a Chaer, dros fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru;
- bod nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac sy'n mynychu prifysgolion Cymru, wedi gostwng (er bod ffigurau diweddar yn dangos cynnydd bach);[18]
- mae nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Loegr, sy'n gwneud cais i astudio yng Nghymru yn parhau i godi.[19]

---

[14] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraff 293
[15] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 55
[16] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 18
[17] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 55
[18] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(4)-01-14 (papur i'w nodi 3), 22 Ionawr 2014

24. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y sector addysg uwch yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol. Er bod y newidiadau strwythurol fwy neu lai wedi'u cwblhau, mae rhagor o gystadleuaeth gan ddarparwyr addysg uwch preifat a darparwyr dramor; mwy o gystadleuaeth gan gyrsiau ar-lein agored enfawr; newid mewn tueddiadau o ran myfyrwyr o dramor, sydd weithiau'n ddibynnol ar feini prawf visa'r DU; a *Bil Addysg Uwch (Cymru)* a ddisgwylir yn ddiweddarach yn 2014, a fydd, ymysg pethau eraill, yn mynd i'r afael ag effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd o ran diogelu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llwyodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC a'r sefydliadau addysg uwch i fonitro'n agos, canfod ac asesu goblygiadau unrhyw newidiadau i dueddiadau yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol; newidiadau polisi yn Lloegr, ac unrhyw newidiadau yn nifer y ceisiadau newydd i brifysgolion Cymru.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro'r trefniadau cyllido ar gyfer y sector addysg uwch yn ofalus, nes y bydd yr Adolygiad yn cyhoeddi ei adroddiad interim cyntaf ac yn cyflwyno adroddiadau yn rheolaidd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel rhan o naratif y Gyllideb Ddrafft), ar unrhyw newidiadau a allai effeithio ar gyllido addysg uwch, er enghraifft unrhyw newidiadau o ran llif myfyrwyr yn drawsffiniol; nifer y myfyrwyr tramor; newidiadau polisi yn Lloegr ac ati.**

[19] Tystiolaeth Ysgrifenedig, UCAS, Deadline Applicant Statistics: Ionawr 2014

# 3. Polisïau Addysg Uwch yn Lloegr

25. Mewn tystiolaeth, dywedodd Prifysgol Glyndŵr bod angen edrych yn fwy manwl ar gyllid cyfalaf ar gyfer Prifysgolion Cymru a'u bod yn aml yn gweld eu bod o dan anfantais o'u cymharu â phrifysgolion Lloegr.[20]

26. Dywedodd yr Athro Patricia Price o Brifysgol Caerdydd:

> "Our experience so far is that they are competing increasingly for the widening access and participation groups, and targeting those groups that we may also wish to encourage to stay in Wales to go across the border."

### *Tystiolaeth y Gweinidog*

27. Nid oedd y Gweinidog yn pryderu am effaith nifer gynyddol o fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn prifysgolion yn Lloegr o ran cyllid, gan fod Cymru yn fewnforiwr net o fyfyrwyr.[21]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

28. Roedd mwy o wahaniaeth barn ar y mater hwn ymysg Aelodau'r Pwyllgor. Nododd yr Aelodau fod y ffioedd yn Lloegr yn uwch, ar y cyfan na ffioedd Cymru a bod goblygiadau i Lywodraeth Cymru o ran y costau hyn.

29. Nododd yr Aelodau hefyd, o'r gwe-sgyrisau, bod llawer o fyfyrwyr yn dewis astudio yn nes at adref er mwyn gallu cadw eu swyddi rhan amser neu gadw costau i lawr drwy fyw gartref.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanwl ar effaith y penderfyniadau polisi a wneir yn Lloegr, gan gynnwys yr hyn a benderfynir ar ôl etholiad cyffredinol 2015, ac yn arbennig i ba raddau y mae prifysgolion Lloegr yn denu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru:**

- **sy'n denu cyllid ychwanegol o dan bolisïau "ehangu mynediad";**
- **sy'n cael graddau uchel mewn arholiadau Safon Uwch, er enghraifft ABB; neu**

---

[20] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraff 199
[21] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 111

- **na allant ddod o hyd i gwrs perthnasol mewn sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu sut y gall gefnogi sefydliadau  sydd wrth y ffin â Lloegr, er mwyn cystadlu'n fwy effeithiol â sefydliadau yn Lloegr, er enghraifft drwy adolygu cystadleuaeth leol am gyrsiau penodol; ariannu prosiectau cyfalaf ac ati.**

-

## 4. Llyfr Benthyciadau i Fyfyrwyr

30. Cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ("NAO") adroddiad, *Student loan repayments*[22] ym mis Tachwedd 2013 sy'n nodi bod rhagolygon yr Adran Busnes a Sgiliau yn dangos y bydd cyfanswm gwerth y benthyciadau myfyrwyr sydd heb eu had-dalu yn Lloegr yn codi o £46 biliwn yn 2013 i tua £200 biliwn erbyn 2042 (o ran prisiau 2013). Dim ond benthyciadau yn Lloegr a gaiff eu cynnwys yn yr adroddiad a daw i'r casgliad bod angen i'r Adran Busnes a Sgiliau wella ei systemau a'i strategaeth ar gyfer sicrhau cyfraddau uwch o ad-dalu benthyciadau. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn nodi bod yr Adran Busnes a Sgiliau yn disgwyl na fydd 35% o fenthyciadau newydd yn cael eu had-dalu ac yn amcangyfrif na fydd 50% o fenthycwyr sydd â benthyciadau newydd i fyfyrwyr yn eu had-dalu'n llawn.[23]

31. Yn fwy diweddar, cyhoeddodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ("IFS") adroddiad ar 24 Ebrill 2014 yn dwyn y teitl *Estimating the public cost of student loans*.[24] Mae'r adroddiad hwn yn archwilio is-raddedigion llawn amser yn Lloegr a ddechreuodd yn y brifysgol yn 2012 a daw i'r casgliad mai'r costau hir dymor i Lywodraeth y DU am bob £1 a fenthycwyd fydd 43.3c. Mae'r adroddiad yn esbonio mai'r rheswm am hyn yw nad yw rhai myfyrwyr yn ad-dalu eu benthyciadau yn llawn a bod benthyciadau yn cael eu cynnig gyda chyfradd llog is na chostau benthyciadau hir dymor Llywodraeth y DU.

32. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am fenthyciadau a roddir i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru o 1998-99 ymlaen, er mai dim ond yn 2006 y cafodd cyllid myfyrwyr ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae *Cyfrifon Cyfunol 2012-13 Llywodraeth Cymru*[25] yn esbonio'n fanwl sut y caiff benthyciadau myfyrwyr eu trin at ddibenion cyfrifyddu. Ceir rhagor o wybodaeth yn y ddogfen ynghylch dileu benthyciadau myfyrwyr, y modelu ariannol a ddefnyddir, effaith y rhagdybiaethau a ddefnyddir a lefel gyffredinol y ddyled myfyrwyr.

[22] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Student loan repayments, 28 Tachwedd 2013
[23] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Student loan repayments, 28 Tachwedd 2013, tudalen 4, [fel ar 5 Chwefror 2014]
[24] www.ifs.org.uk/comms/r94.pdf [fel ar 1 Mai 1 May 2014]
[25] Llywodraeth Cymru, Cyfrifon Cyfunol 2012-13, 20 Awst 2013, [fel ar 5 Chwefror 2014]

33. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gyllid Addysg Uwch* a gyhoeddwyd ym mis Tachwed 2013 yn trafod y modelu ystadegol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo gwerth blynyddol cost y polisi diddymu dyledion benthyciadau. O ran Cymru, mae'r adroddiad yn nodi:

> "Nid yw amcan-gost rhoi benthyciadau i fyfyrwyr yn y cyfnod 2012-13 tan 2016-17 wedi newid, sef ychydig dros £1.6 biliwn, ac er y gallai cost diddymu dyledion benthyciadau newid, ar hyn o bryd, disgwylir mai £476 miliwn fydd honno o'i chymharu â'r rhagolygon gwreiddiol sef £549 miliwn."[26]

34. Mae'r adroddiad yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y model HERO newydd a fabwysiedir ganddi i fodelu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr yn wallus.[27]

35. O ran ad-dalu benthyciadau, dywedodd myfyriwr ar y we-sgwrs gyntaf ei fod yn ymwybodol o fyfyrwyr eraill sydd wedi cymryd benthyciad myfyrwyr ac sy'n osgoi ei ad-dalu. Dywedodd myfyriwr gwyddoniaeth o Brifysgol Aberystwyth:

> "The loan should have to stay with someone for life until it is paid off in order to ensure the Welsh economy does not suffer from their investment."[28]

36. Esbonoidd myfyriwr arall ar yr ail we-sgwrs y dylid cyfleu rhagor o wybodaeth ynghylch y system ad-dalu benthyciadau gan nad oedd y telerau ac amodau presennol yn glir.[29]

### *Tystiolaeth y Gweinidog*

37. Dywedodd y Gweinidog ei fod o'r farn bod y lefel gyffredinol o ddyledion myfyrwyr yn cael ei chynnal a'i rheoli ar lefel realistig yng Nghymru.[30] Roedd y Gweinidog yn cydnabod fod angen gwneud rhagor o waith o ran modelu'r ddyled yn y dyfodol ag adolygiad Syr Ian Diamond o gofio goblygidau hirdymor y mater hwn.

---

[26] Swyddfa Archwilio Cymru, Cyllid Addysg Uwch, 21 Tachwedd 2013, tudalen 33, [fel ar 4 Rhagfyr 2013]
[27] Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Cyllid Addysg Uwch, 21 Tachwedd 2013, paragraff 2.15
[28] Trawsgrifiad gwe-sgwrs y Pwyllgor Cyllid, 21 Tachwedd 2013, tudalen 9
[29] Trawsgrifiad gwe-sgwrs y Pwyllgor Cyllid, 21 Tachwedd 2013, tudalen 21
[30] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 24

38. Pan ofynnwyd a oedd lle i dyfu yn y Llyfr Benthyciadau i Fyfyrwyr Cymru, dywedodd y Gweinidog:

> "I have not asked officials as yet to undertake modelling in that regard, although you are right to point to it as something that we will need to do. It will be of enormous interest. At present, that overall package of debt in Wales is miniscule compared to the situation across the border in England, but we need to take a long-term view."[31]

***Safbwynt y Pwyllgor***

39. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y lefel gynyddol o ddyledion myfyrwyr, a elwir, hefyd, yn lyfr benthyciadau i fyfyrwyr, ac a yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu model manylach ar ddyledion myfyrwyr yn gyffredinol a'r llyfr benthyciadau i fyfyrwyr er mwyn amcangyfrif goblygidau hirdymor dyledion myfyrwyr.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r opsiynau ar gyfer bod yn rhan o ddatblygiadau pellach model HERO yr Adran Busnes a Sgiliau a ddefnyddir i fodelu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr ac a ellir gwneud addasiadau i ystyried polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid myfyrwyr.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio:**

- **a oes tystiolaeth nad oes angen i nifer gynyddol o raddedigion ad-dalu eu benthyciadau myfyrwyr am nad ydynt yn bodloni'r gofynion trothwy enillion angenrheidiol i wneud hynny, neu eu bod yn methu ag ad-dalu'r benthyciadau am resymau eraill,**
- **a yw nifer y myfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i'w cwrs cyn ei gwblhau yn cynyddu**

---

[31] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 26

## 5. Effaith ar fyfyrwyr a dewisiadau myfyrwyr

40. Clywodd y Pwyllgor safbwyntiau cymysg ynghylch a oedd myfyrwyr yn ymwybodol o'r cyllid sydd ar gael iddynt. Roedd canlyniadau'r arolwg[32] i ddarpar-fyfyrwyr a myfyrwyr presennol yn dangos lefel uchel o ymwybyddiaeth er bod y gwe-sgyrisau[33] yn dangos bod y myfyrwyr i gyd wedi cael profiadau gwahanol yn y ffordd y cawsant wybodaeth am y grant ffioedd dysgu.

*Ymwybyddiaeth o'r grant ffioedd dysgu*

41. Roedd gan y myfyrwyr o'r gwe-sgyrsiau i gyd brofiadau gwahanol o ran y ffordd y cawsant wybodaeth am y grant ffioedd dysgu. Cafodd llawer ohonynt wybodaeth yn yr ysgol neu'r chweched dosbarth, cafodd rhai gyflwyniadau gan y gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr ac aeth eraill ati eu hunain i gael gwybod sut i gael cymorth, a chawsant wybodaeth anghywir gan yr awdurdod lleol. Esboniodd rhai myfyrwyr, hefyd, mai dim ond wrth gwblhau eu ceisiadau UCAS y cawsant wybod am y cymorth sydd ar gael, a hynny ar lafar. Dywedodd un myfyriwr celf o Brifysgol Aberystwyth:

> "I think the problem with the access to information as I understand it is that everything to do with applying for grants extra is going to be centralised – this means that it becomes impersonal – I am lucky that our local office has some fantastic staff with better knowledge than the main student finance office who often gave conflicting advice."[34]

42. Roedd myfyrwyr o'r ddwy we-sgwrs yn teimlo y dylai rhagor o wybodaeth a chyngor fod ar gael i ddarpar-fyfyrwyr.

*Gweithio tra'n astudio*

43. Dywedodd y pum myfyriwr yn y we-sgwrs gyntaf eu bod yn gweithio tra maent yn astudio. Dywedodd un myfyriwr o Brifysgol Caerdydd ei fod yn gweithio'n llawn amser ac yn astudio'n llawn amser:

> "I'm in uni 9-5 every day then having to go to work until 1-2am to try and earn enough money to pay for it so I am constantly

[32] Y Pwyllgor Cyllid, Crynodeb o'r Arolwg i Gyllid Addysg Uwch
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Gwe-sgwrs â Myfyrwyr, 21 Tachwedd 2013, tudalen 4
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Gwe-sgwrs â Myfyrwyr, 21 Tachwedd 2013, tudalen 4

exhausted and it is definitely affecting how much study I can do."[35]

*Byw gartref tra'n astudio*

44. O'r we-sgwrs gyntaf, dywedodd llawer o fyfyrwyr fod byw gartref neu'n agos at eu cartref yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis pa brifysgol i astudio ynddi, oherwydd costau byw a pha mor bwysig yw cadw'r swydd sydd ganddynt eisoes. Dyweodd tri o'r myfyrwyr eu bod yn byw gartref a'r ddau arall yn byw mewn tŷ wedi'i rannu ac ar y campws. Mae'r ddau fyfyriwr nad ydynt yn byw gartref yn teithio gartref bron bob penwythnos i weithio. Dywedodd myfyriwr gwyddoniaeth o Brifysgol Aberystwyth:

> "I have a job near my home town, although it means travelling far, I end up earning money to use during the week at uni, unfortunately there are not many jobs near my university, and my job at home gets very busy during the summer, winter and Easter breaks, which means I will earn good money during those holidays."[36]

45. Ar 28 Ebrill 2013, cyhoeddodd UCMC (Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru) adroddiad *Punt yn Eich Poced, Cymru 2014*[37] a gynhaliodd arolwg o bron i 2,000 o fyfyrwyr a chanfu bod costau byw yn cael effaith sylweddol ar fyfyrwyr, yn ychwanegol at dalu ffioedd dysgu.

***Tystiolaeth y Gweinidog***

46. O ran y grant ffioedd dysgu, dywedodd y Gweinidog fod y defnydd o'r grant 'rhwng 95% a 98%'.[38] Pan holwyd ef a oedd budd mewn sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol yn gynharach o'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt, cadarnhaodd y byddai'r adolygiad yn ystyried hyn, ond cadarnhaodd hefyd fod gwaith yn cael ei wneud i weithio gyda phobl ifanc.[39]

[35] Y Pwyllgor Cyllid, Gwe-sgwrs â Myfyrwyr, 21 Tachwedd 2013, tudalen 3
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Gwe-sgwrs â Myfyrwyr, 21 Tachwedd 2013, tudalen 6
[37] www.nusconnect.org.uk/dychmygwchaddysg/punt-yn-eich-poced/ [fel ar 1 Mai 2014]
[38] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr, paragraff 119
[39] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr, paragraff 122

47. O ran y cwestiynau sy'n ymwneud â'r pryderon a godwyd gan fyfyrwyr ynghylch costau byw tra byddant yn astudio, dywedodd y Gweinidog:

> "That is why I think it is more important than ever that we continue with a governmental commitment to supporting our students through the overall financial burden of higher education. There is even more reason to be determined about a policy such as this than there would have been in better times."[40]

48. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r adolygiad yn ystyried llawer o'r materion a godwyd gan y myfyrwyr yn ystod yr ymchwiliad hwn.[41]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

49. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth ac yn teimlo'n arbennig o gryf bod y dystiolaeth a gafwyd gan y myfyrwyr yn ystod y we-sgwrs yn dangos bod anghysondeb o ran y wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr a bod angen i lawer o fyfyrwyr dreulio gormod o amser yn gweithio i ariannu eu hastudiaethau.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ymwybyddiaeth o'r grant ffioedd dysgu yn gynharach (ym mlwyddyn 9, o leiaf) yn ystod addysg myfyrwyr. Dylid hefyd sicrhau cysondeb o ran sut y codir ymwybyddiaeth.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y myfyrwyr sy'n byw gartref tra maent yn astudio er mwyn canfod a yw'r tueddiad hwn yn cynyddu.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil i ganfod a yw costau byw yn peri mwy o bryder na chostau ffioedd dysgu i fyfyrwyr.**

---

[40] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr, paragraff 127
[41] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr, paragraffau 129-144

## 6. Ehangu Mynediad

50. Mae tystiolaeth Prifysgol Caerdydd yn nodi bod y Grant Ffioedd Dysgu, yn ei phrofiad hi, yn ysgogiad cryf i'r myfyrwyr hynny o deuluoedd incwm is.[42]

51. Dywedodd Prifysgol Glyndŵr, fodd bynnag, ei bod yn rhy fuan i ddweud yn bendant beth yw'r effaith ar grwpiau o dan anfantais cymdeithasol. Dywedodd y gallai pobl o ardaloedd difreintiedig gael eu rhwystro rhag gwneud cais oherwydd yr ofn o fynd i ddyled a dywedodd hefyd ei bod yn ymddangos bod y bwlch rhwng cyfraddau cyfranogi yn agor.[43]

52. Dywedodd Prifysgol Glyndŵr hefyd ei bod yn pennu lefel isel o ffioedd dysgu a bod hyn yn cael effaith andwyol ar y cyllid a ddaw i'r sefydliad gan CCAUC:

> "If you look at the sector as a whole, that is probably true, but I think that there are winners and losers within the sector. As Professor Scott has already alluded to, because we set our tuition fee initially quite low, we did not fare so well. We have had a policy of gently increases over the intervening period. So, in one sense, we are playing catch-up, but we are very conscious of the market that we are particularly attracting."[44]

53. Dywedodd Prifysgol Caerdydd bod y pwysau ar weddill grant y Cyngor Cyllido wedi bod mor drwm fel bod yr arian ehangu mynediad a menter ac ymgysylltu wedi hanneru eleni, ac y bydd yn diflannu y flwyddyn nesaf.

54. Esbniodd CCAUC yn ei ymateb ysgrifenedig bod data HESA (yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) o 2011/12 yn dangos bod myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac o'r cartrefi incwm isaf (yn ôl diffiniad Cymuendau yn Gyntaf) yn llai tebygol o fynd i sefydliadau addysg uwch y tu allan i Gymru o'i gymharu â'r holl fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru.[45]

55. Mewn ymateb ysgrifenedig, mae Addysg Uwch Cymru yn dadlau mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd i'w chael hyd yma bod ffioedd dysgu uwch wedi cael effaith ar fyfyrwyr llawn amser o gartrefi incwm

---

[42] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)HEF06
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, FIN(4) -20-13 (Papur 5), 13 Tachwedd 2013
[44] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraff 168
[45] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)HEF07

is neu grwpiau eraill y polisi ehangu mynediad naill ai gyda neu heb gymorth y grant ffioedd dysgu.[46]

56. Dywedodd Prifysgol Caerdydd ei bod yn pryderu y gallai rhagdybiaethau am ddyled myfyrwyr rwystro rhai myfyrwyr o gefndiroedd ehangu mynediad rhag parhau i astudio ar ôl graddio. Mae Prifysgol Caerdydd yn ystyried bwrsariaethau prawf moddion fel ateb posibl i'r hyn sydd wedi datblygu'n anfwriadol i gynnydd mewn benthyciadau myfyrwyr.[47]

### *Tystiolaeth y Gweinidog*

57. Yn y dystiolaeth, dywedodd y Gweinidog ei fod yn ceisio cael darlun cyflawn o'r holl gyllid a oedd yn cefnogi'r polisi ehangu mynediad:

> "Thirty per cent of the money flowing through the student support system should be recycled into initiatives around widening access. That is a very chunky commitment that HEIs have to undertake. Since taking up my post, I have asked officials to grant me a better understanding of what is going on out there at the moment in terms of how the Reaching Wider programme is working, and also to grant me a better understanding of how we are monitoring the effectiveness of the spend of that kind of money. I have not had the full picture presented to me as yet…"[48]

58. Dywedodd y Gweinidog mai ehangu mynediad fydd thema cyffredinol yr adolygiad addysg uwch a gaiff ei gadeirio gan Syr Ian Diamond ac nad yw wedi penderfynu, eto, a oedd cynlluniau ffioedd yn offeryn effeithiol ar gyfer ehangu mynediad.

### *Safbwynt y Pwyllgor*

59. Noda'r Pwyllgor bod gwrthdaro yn y dystiolaeth o ran a oedd polisi ehangu mynediad Llywodraeth Cymru yn effeithiol yn ei nod o ddenu myfyrwyr o gartrefi incwm is i addysg uwch, ac mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn faes pwysig iawn.

---

[46] Ymateb Ysgrifenedig, FIN(4)-HEF04
[47] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraff 161
[48] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 161

60. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod rhai sefydliadau addysg uwch yn gwneud ymdrech fawr i ddenu myfyrwyr o dramor, gan wario miloedd o bunnoedd yn aml ar ddenu'r myfyrwyr hyn. Er nad yw'r Pwyllgor yn amau pwysigrwydd denu myfyrwyr o dramor, mae'r Aelodau'n holi a fyddai'n well gwario peth o'r arian hwn ar ddenu myfyrwyr o Gymru.

61. Roedd y Pwyllgor yn siomedig nad yw'n arferiad casglu gwybodaeth am ganlyniadau graddau Safon Uwch a gaiff y myfyrwyr sy'n mynychu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â CCAUC, fonitro faint o arian a gaiff ei wario ar fentrau ehangu mynediad a monitro a yw'r arian hwn yn cynrychioli gwerth am arian ac a yw'n bodloni'r nod o gynorthwyo myfyrwyr o gartrefi incwm is.**

# 7. Astudio'n Rhan-Amser

### Cefndir

62. Cyhoeddodd Leighton Andrews, y cyn Weinidog Addysg a Sgiliau y bydd myfyrwyr cymwys sy'n astudio dros 25% o gwrs llawn amser o 2014/15 yn gallu cael mynediad at fenthyciad nad yw'n seiliedig ar brawf moddion, gan Gyllid Myfyrwyr Cymru er mwyn talu costau ffioedd cyrsiau rhan-amser ymlaen llaw. Dywedodd hefyd y byddai cyllid ar gael i CCAUC i barhau i gynorthwyo i dalu costau darparu cyrsiau rhan-amser er mwyn parhau i ariannu darpariaeth rhan-amser ar y lefel bresennol, fwy neu lai. Dywedodd y byddai'n disgwyl i sefydliadau addysg uwch fod yn ofalus wrth bennu ffioedd dysgu rhan-amser.

### Tystiolaeth

63. Mewn tystiolaeth, dywedodd Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Glyndŵr fod nifer y myfyrwyr rhan-amser wedi disgyn ac esboniodd Prifysgol Glyndŵr ei bod wedi cynyddu costau ei chyrsiau rhan-amser:

> "We are very carefully raising our part-time fees. The other thing to be aware of, certainly for us, is that, in many instances, employers pay those fees, because we are linked very considerably with local employers. There is a certain reluctance on their part to fund fees above the present levels. Over the last 12 months, we have found that we have had fewer part-time students, but they have been studying a higher density of course at the higher fee. So, I do not believe that it is particularly following the Government ambitions in this area for part-time students."[49]

64. Roedd llawer o ymgynghoreion, gan gynnwys y Brifysgol Agored, yn dadlau bod angen ystyried materion cyllid cyrisau rhan-amser ac ôl-radd ochr yn ochr â chyllid cyrsiau gradd llawn amser.[50]

65. Nododd Addysg Uwch Cymru bod tueddiadau ymrestru rhan-amser wedi bod yn gostwng yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n awgrymu bod cyfle i Gymru fabwysiadu polisi rhan-amser

---

[49] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraff 364
[50] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)-HEF08

gwahanol i Loegr er mwyn osgoi gostyngiad mawr yn y nifer o fyfyrwyr rhan-amser.[51]

66. Roedd y Brifysgol Agored yn dadlau nad yw newidiadau a gaiff eu gweithredu yn y system gyllido rhan-amser yn 2014 yn cynrychioli trefniadau terfynol na threfniadau a gytunwyd ar gyfer cyllido Addysg Uwch rhan-amser yng Nghymru yn y dyfodol. Dywedodd hefyd fod datblygiadau pellach wrthi'n cael eu gweithredu, fel diddymu cymorth ariannol CCAUC i strategaethau sefydliadau, a fydd yn effeithio ar allu sefydliadau i ddarparu Addysg Uwch rhan-amser mewn meysydd blaenoriaeth.[52]

67. Cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad bod angen gweithredu pellach o ran cyllid ar gyfer astudio rhan-amser.[53]

### *Tystiolaeth y Gweinidog*

68. Yn y dystiolaeth, dywedodd y Gweinidog fod 'ymrwymiad meosol' ar CCAUC a sefydliadau Addysg Uwch unigol[54] i gefnogi astudio rhan-amser yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog:

> “I think that part-time provision is very important to the way that Welsh society is configured and what our economy needs. Postgraduate provision is, I think, a ticking time bomb across the UK, in terms of students now coming out of undergraduate study with a parcel of debt and potentially being completely demotivated or unable to go forward with postgraduate study because of affordability issues. These are the most highly skilled people of all—people who we will need if the Welsh economy is to keep ticking. We need to understand how we make sure that affordability problems are not barriers to entry into postgraduate study in Wales. That is a tricky question.”[55]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

69. Roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai cyllid ar gyfer astudio rhan-amser gael ei wasgu o ganlyniad i bwysau ar gyllidebau eraill. Teimlai'r Aelodau nad oedd angen i benderfyniad ynghylch cyllid rhan-

---

[51] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)HEF04
[52] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)-HEF08
[53] Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Cyllid Addysg Uwch, 21 Tachwedd 2013, tudalen 35
[54] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 181
[55] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 76

amser, yn y tymor byr, o leiaf, aros nes y byddai adolygiad yr Athro Syr Ian Diamond o addysg uwch wedi gwneud ei argymhellion. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'r sector addysg uwch rhan-amser (y myfyrwyr a'r sefydliadau) yn elwa o gyllid a chyfeiriad polisi clir, yn hytrach na gadael i sefydliadau unigol weld pa gyllid fyddai ar gael ar ôl i gyllid gael ei ddyrannu i gyrsiau eraill a strategaethau blaenoriaeth eraill.

**Mae'r Pwllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â CCAUC, fonitro nifer y myfyrywr addysg uwch rhan-amser yng Nghymru i ganfod a oes unrhyw newidiadau mewn tueddiadau. Yn ogystal â hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfeiriad polisi strategol interim clir yn cael ei bennu ar gyfer addysg uwch rhan-amser hyd at flwyddyn academaidd 2016/17, o leiaf.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â CCAUC, yn gweithredu pecyn ariannu cyfanol a strategol ar gyfer astudio rhan-amser ac ar gyfer y Brifysgol Agored, ar gyfer blynyddoedd academaidd 2014/15 a 2015/16, o leiaf, fel strategaeth interim nes y bydd gwaith adolygiad yr Athro Syr Ian Diamond wedi'i gwblhau.**

# 8. Ariannu Gwaith Ymchwil ac Astudiaethau Ôl-raddedig

## Cefndir

70. Ar hyn o bryd, mae gan CCAUC ddwy brif ffrwd cyllid ar gyfer gwaith ymchwil: tua £70 miliwn ar gyfer ymchwil ansawdd a £5 miliwn y flwyddyn ar gyfer ymchwil ôl-raddedig. Mae CCAUC hefyd yn cyfrannu at ariannu'r fenter Sêr Cymru, sy'n llawer llai o'i gymharu, sef cyfanswm o £50 miliwn dros bum mlynedd, a daw 30% ohono o gyllideb CCAUC.

## Tystiolaeth

71. Clywodd y Pwyllgor sawl gwaith bod y sefydliadau'n bryderus iawn y caiff yr arian sydd ar gael ar gyfer blaenoriaethau strategol ei "wasgu" gan fod mwy o gyllid yn dod drwy'r ffioedd dysgu, yn hytrach nag o grantiau CCAUC. Dyweodd Dr Blaney, o CCAUC, bod CCAUC wedi gorfod cynnal trafodaethau annodd â Llywodraeth Cymru:

> "The tuition fee grant is untouchable and if we want to maintain investment in the research base in Wales, and, as I said earlier, we are the biggest single investor, so it is important that we do, then we have to try to ring-fence that."[56]

72. Aeth Dr Blaney, CCAUC, yn ei flaen:

> "The current position is that we expect, next year, to be spending 60% of our total HEFCW resource on fee grant for full-time undergraduate students. Full-time undergraduate students are but one of the policy priorities for higher education that the Government has correctly set. If you look at things such as Welsh medium, widening access and research, there is a whole list of priorities, all of which are perfectly legitimate. With the exception of Welsh medium, they are the same across HE systems throughout the developed world, essentially. However, at the moment, we have our balance of resource predominantly focused on one of those areas. So, what I would wish to see coming out of the review is a consideration of the balance of

[56] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2013, paragraff 158

resources across that range of priorities and a shape of resourcing that better fits the shape of those priorities."[57]

73. Fel Prifysgol sy'n canolbwyntio llawer ar waith ymchwil, caiff Prifysgol Caerdydd tua £40 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd a phwysleisiodd Mr Davies pa mor bwysig yw'r cyllid hwn i Gaerdydd:

> "Basically, that £40 million underpins—together with the tuition fee income, with a bit still coming from the funding council or from the student—the whole fabric of the university in terms of its academic staff, support staff and infrastructure. So, it is not additionality; it is core."[58]

74. Dywedodd CCAUC wrth y Pwyllgor ei fod yn dyrannu cyllid ymchwil ar hyn o bryd ar sail fformiwla cyllido, ar sail "rhagoriaeth gynaliadwy" gyda dau faen prawf: perfformiad yn yr ymarferion asesu ymchwil achlysurol a'r isafswm o dri ymchwilydd mewn uned asesu.[59] Prifysgol Glyndŵr yw'r unig sefydliad nad yw'n cael unrhyw gyllid ymchwil gan CCAUC.[60]

75. Ni allai tystiolaeth y Prif Swyddog Gwyddonol roi manylion ynghylch hyn ond pwysleisiodd bod rhannau eraill o'r DU yn ogystal â CCAUC yn defnyddio "rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy"[61] fel canolbwynt cyllido.

76. Yn ystod y gwe-sgyrisau dywedodd y myfyrwyr a gymerodd ran bod cefnogaeth ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig yn bwysig. Dywedodd myfyrwyr yn y we-sgwrs gyntaf bod angen gradd ôl-raddedig bellach i sicrhau eich bod yn sefyll ben ac ysgwydd yn uwch na myfyrwyr eraill a'r farn oedd y dylai cyllid fod ar gael i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ôl-raddedig.[62]

77. Dywedodd myfyrwyr yn yr ail we-sgwrs bod cyflogwyr mewn rhai pynciau (e.e. pensaernïaeth) yn disgwyl bod gan fyfyrwyr gymhwyster ôl-raddedig.

[57] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2013, paragraff 44
[58] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraff 322
[59] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2013, paragraff 102
[60] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2013, paragraff 108
[61] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)-02-14 (papur i'w nodi 1), 5 Chwefror 2014
[62] Y Pwyllgor Cyllid, Gwe-sgwrs â Myfyrwyr, 21 Tachwedd 2013, tudalen 15

*Tystiolaeth y Gweinidog*

78. Dywedodd y Gweinidog y byddai darpariaeth ôl-raddedig yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad Addysg Uwch.

> "Postgraduate provision is, I think, a ticking time bomb across the UK, in terms of students now coming out of undergraduate study with a parcel of debt and potentially being completely demotivated or unable to go forward with postgraduate study because of affordability issues. These are the most highly skilled people of all—people who we will need if the Welsh economy is to keep ticking. We need to understand how we make sure that affordability problems are not barriers to entry into postgraduate study in Wales."

*Safbwynt y Pwyllgor*

79. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod maes ymchwil yn hanfodol bwysig i sefydliadau Cymru.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CCAUC i sicrhau bod pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn cael lefel fach, safonol o gyllid ymchwil, er enghraifft £500,000, os nad ydynt yn gymwys i gael unrhyw gyllid pellach o dan y fformiwla "rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy".**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell cynnal adolygiad o ddarpariaeth ôl-raddedig, gan gynnwys trefniadau cyllido.**

## 9. Cyllid ar gyfer pynciau drud

80. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, esboniodd CCAUC ei fod, hyd yn hyn, wedi gallu talu premiwm ar gyfer pynciau blaenoriaeth (ieithoedd tramor modern a mathemateg) a phynciau drud (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, meddygaeth, deintyddiaeth a'r elfen berfformio conservatorie) sydd wedi costio dros £9,000 y flwyddyn i sefydliadau eu darparu ar gyfer pob myfyriwr.[63]

81. Dywedodd CCAUC bod sefydliadau sy'n darparu pynciau drud yn wynebu anawsterau ac mae CCAUC yn ceisio parhau i ddarparu premiwm am bynciau drud, ond dywedodd ei fod o dan bwysau o ran gallu cynnal y cymorth hwn.[64]

82. Mewn tystiolaeth, cadarnhaodd CCAUC fod y tâl pwnc drud o dan fygythiad cynyddol.[65]

83. Yn ei dystiolaeth, mae Addysg Uwch Cymru yn dwued nad yw lefelau ffioedd, o dan y gyfundrefn gyllid newydd, yn adlewyrchu costau'r gwahanol bynciau, o reidrwydd, a gallai hyn arwain at gynnydd yn narpariaeth y meysydd pwnc costau is. Mae Addysg Uwch Cymru o'r farn bod y diffyg cyllid i gynnal pynciau drud yn faes sy'n peri pryder sylweddol.[66]

84. Dywedodd Prifysgol Caerdydd ei bod o'r farn fod bwlch cyllid rhwng Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a Lloegr o ran darparu pynciau costau uchel, a bod darparu pynciau costau uchel yn dod yn straen cynyddol.[67]

85. Dywed CCAUC bod bygythiad cynyddol i gyllid y pynciau drud.[68]

86. Clywodd y Pwyllgor farn hefyd ei bod yn haws i ddarparwyr preifat ddewis pynciau arbenigol costau isel a gadael y pynciau costau uwch fel gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, pynciau clinigol a chonservatoire i gael eu darparu gan sefydliadau a gaiff gyllid cyhoeddus.

---

[63] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)-HEF07
[64] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2013, paragraff
[65] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2013, paragraff
[66] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2013, paragraff
[67] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2013, paragraff
[68] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2013, paragraff

### *Tystiolaeth y Gweinidog*

87. Dywedodd y Gweinidog mai mater i'r Sefydliadau Addysg Uwch Unigol a CCAUC yw'r cyllid ar gyfer pynciau drud.[69]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

88. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai arian ar gyfer y pynciau premiwm gael ei wasgu o ganlyniad i bwysau ar gyllidebau eraill.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC fonitro effaith y gyfundrefn gyllido ffioedd/benthyciadau bresennol ar nifer y myfyrwyr sy'n astudio pynciau drud yng Nghymru a monitro safon y ddarpariaeth o bynciau drud.**

[69] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 192

## 10. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

89. Dywedodd Prifysgol Glyndŵr ei bod wedi gweld cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a'i bod wedi cyllido hyn ei hun.[70]

90. Dywedodd Prifysgol Bangor nad oedd wedi gweld gostyngiad yn y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ychwanegodd ei bod wedi buddsoddi llawer yn yr elfen hon, gan gymryd tua hanner buddsoddiad y Coleg Cymraeg yng Nghymru.[71]

91. I'r gwrthwyneb, dywedodd CCAUC yn ei sesiwn dystiolaeth bod gostyngiad cyffredinol o tua 250 yn y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

92. Rhoddodd CCAUC dystiolaeth ychwanegol sy'n nodi bod y ffigur o 258 yn cynrychioli gostyngiad o 5.6% mewn niferoedd rhwng 2008/09 a 2011/12 (blwyddyn olaf ond un y targed).[72]

### *Tystiolaeth y Gweinidog*

93. Dywedodd y Gweinidog fod cynnydd o 10 y cant yn y mathau o gyrsiau a gaiff eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011. Ond ni fu cynnydd cyfatebol yn y nifer o fyfyrwyr sy'n dilyn y cyrsiau.[73]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

94. Noda'r Pwyllgor yr ymdrechion a gaiff eu gwneud o ran addysgu addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n cymeradwyo'r camau hynny.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso cynnydd a gwerth am arian y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio a yw cyfanswm nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi neu'n disgyn ac, os oes angen, yn archwilio:**

[70] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraff 369
[71] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2013, paragraff 371
[72] Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)-01-14 (papur i'w nodi 2), 22 Ionawr 2014
[73] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2013, paragraff 45

- **y rhesymau pam nad yw nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymaeg yn codi:**
- **y rhesymau pam nad yw'r holl fyfyrwyr sydd wedi dilyn addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i astudio cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg;**

**a chytuno ar gynllun gweithredu gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael ag unrhyw drafferthion.**

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn y sesiynau tystiolaeth lafar yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243

*Dydd Mercher 12 Mehefin 2013*

| | |
|---|---|
| Leighton Andrews AC | Gweinidog dros Addysg a Sgiliau |

*Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2013*

| | |
|---|---|
| Dr David Blaney | Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Celia Hunt | Pennaeth Sgiliau, Addysg a Chyllido, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Bethan Owen | Pennaeth Ymgysylltu Sefydliadol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |

*Dydd Mercher 13 Tachwedd*

| | |
|---|---|
| Yr Athro Patricia Price | Dirprwy Is-ganghellor, Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd, Prifysgol Caerdydd |
| Mike Davies | Cyfarwyddwr Cyllid, Prifysgol Caerdydd |
| Yr Athro Michael Scott | Is-ganghellor a Phrif Weitrhedwr, Prifysgol Glyndŵr |
| Paul Whiting | Cyfarwyddwr Cyllid, Prifysgol Glyndŵr |
| Andrew Parry | Pennaeth yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol, Prifysgol Glyndŵr |
| Rob Humphreys | Cyfarwyddwr, y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| Michelle Matheron | Michelle Matheron, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, y Brifysgol Agored yng Nghymru |

*Dydd Mercher 27 Tachwedd 2013*

| | |
|---|---|
| Yr Athro John Hughes | Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor |
| Amanda Wilkinson | Cyfarwyddwr Addysg Uwch Cymru |

| | |
|---|---|
| Ben Arnold | Cynghorwr Polisi, Addysg Uwch Cymru |
| Dr David Blaney | Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Bethan Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu Sefydliadol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Celia Hunt | Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg a Chyllido, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Stephanie Lloyd | Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru |
| Keiron Rees | Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru |

*Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2013*

| | |
|---|---|
| Huw Lewis AC | y Gweinidog Addysg a Sgiliau |

## Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a‘r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5931

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Fin(4)-HEF01 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | Fin(4)-HEF02 |
| Prifysgol De Cymru | Fin(4)-HEF03 |
| Addysg Uwch Cymru | Fin(4)-HEF04 |
| Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru | Fin(4)-HEF05 |
| Prifysgol Caerdydd | Fin(4)-HEF06 |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Fin(4)-HEF07 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | Fin(4)-HEF08 |

### Additional Written Evidence

Crynodeb o’r Arolwg ar yr Ymchwiliad ynghylch Cyllido Addysg Uwch

Trawsgrifiad o’r we-sgwrs

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | FIN(4)-22-13(ptn1) |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | FIN(4)-01-14(ptn1) |
| Addysg Uwch Cymru | FIN(4)-01-14(ptn2) |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | FIN(4)-01-14(ptn3) |
| Athro Julie Williams | FIN(4)-02-14(ptn1) |

# Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gyllido Addysg Uwch

**Mai 2014**

---

## 1. Cefndir

1. Yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2013, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i gyllido Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, effaith ariannol polisi grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru ar sefydliadau addysg uwch a myfyrwyr yng Nghymru, ac a yw Llywodraeth Cymru'n darparu gwerth am arian yn y maes hwn.

### Cylch gorchwyl

2. Gan nad yw'r polisi cyllido Addysg Uwch rhan-amser newydd yn dod i rym tan yn ddiweddarach yn 2014, penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio i gychwyn ar gyllido Addysg Uwch amser llawn. O ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, ehangwyd cwmpas yr ymchwiliad i gynnwys cyllido Addysg Uwch rhan-amser.

3. Roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys, yn fras, dair ffrwd incwm ar gyfer cyllido sefydliadau addysg uwch, a rôl cyllid yn y dewisiadau a wneir gan fyfyrwyr:

- Ymchwil – Pa mor effeithiol yw sefydliadau addysg uwch o ran sicrhau incwm ar gyfer gwaith ymchwil, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwaith ymchwil gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

- Incwm a chymorth ar gyfer ffioedd dysgu – Pa effaith ariannol y mae'r polisi ffioedd dysgu newydd, a gyflwynwyd yn 2012, wedi'i chael, sy'n caniatáu i sefydliadau addysg uwch godi hyd at £9,000 y flwyddyn ar fyfyrwyr am gyrsiau addysg uwch, a beth yw goblygiadau ariannol grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru?

- Cyfleoedd eraill am incwm, neu fygythiadau eraill i incwm – Pa mor bwysig i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yw'r ffrwd o incwm o ffioedd dysgu a geir gan fyfyrwyr sy'n hanu o'r tu allan i Gymru, gan gynnwys myfyrwyr tramor, a beth yw canlyniadau ariannol newidiadau eraill yn y farchnad addysg uwch, yn awr neu yn y dyfodol, gan gynnwys cyflwyno darparwyr preifat?

- Dewisiadau myfyrwyr – Pa ystyriaethau ariannol sydd gan fyfyrwyr pan fyddant yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen i

addysg uwch, a beth yw effaith grantiau ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru ar ddewis yr unigolyn?

**Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru**

4. Ddydd Mawrth 19 Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fod yn sefydlu Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru, i gael ei gadeirio gan yr Athro Syr Ian Diamond. Bydd dwy ran i strwythur yr adolygiad.

5. Bydd yr Athro Syr Ian Diamond yn llunio crynodeb ffeithiol o'r dystiolaeth a gaiff ei chasglu gan y tîm yn ystod yr hydref 2015. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol, gan gynnwys yr argymhellion terfynol, erbyn mis Medi 2016.

Bydd blaenoriaethau'r adolygiad yn cynnwys:

- ehangu mynediad – sicrhau mai ehangu mynediad yw amcan canolog unrhyw system yn y dyfodol, a'i bod yn system flaengar a theg;
- cefnogi anghenion sgiliau Cymru;
- cryfhau darpariaeth ran-amser a darpariaeth ôl-raddedig yng Nghymru; a
- chynaliadwyedd ariannol hirdymor.

**Gwybodaeth ystadegol mewn cysylltiad ag Addysg Uwch**

6. Ar 24 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fwletin Ystadegol o dan y teitl *Universities and Colleges Admissions Service (UCAS) Statistics, 2013 Entry*. Mae'r bwletin hwn yn dadansoddi data UCAS mewn cysylltiad ag ymgeiswyr a gafodd eu derbyn ar gyrsiau gradd a HND llawn amser yn hydref 2013 i sefydliadau addysg uwch yn y DU.

**Ymgeiswyr i sefydliadau yng Nghymru**

7. Ym mlwyddyn academaidd 2013, cafodd 25,511 o ymgeiswyr eu derbyn gan sefydliadau yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 5.7% o'i gymharu â 2012 ac yn wahanol i'r gostyngiad o 8.1% mewn ceisiadau rhwng 2011 a 2012.

8. Ychydig o dan hanner (47.8%) o'r holl ymgeiswyr a dderbyniwyd gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Mae'r gyfran hon 1.4 pwynt canran yn is nag yn 2012.

## 2. Amlinellir Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

### Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC a'r sefydliadau addysg uwch i fonitro'n agos, canfod ac asesu goblygiadau unrhyw newidiadau i dueddiadau yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol; newidiadau polisi yn Lloegr, ac unrhyw newidiadau yn nifer y ceisiadau newydd i brifysgolion Cymru. (Tudalen 18)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

- Bydd y Cyngor Cyllido a Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'i gilydd i fonitro goblygiadau myfyrwyr rhyngwladol; er enghraifft, mae un o dargedau Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor Cyllido 2013-16 yn tracio'r gwaith o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru yn erbyn tueddiadau'r Deyrnas Unedig. Yn ogystal, mae'r Cyngor Cyllido yn gweithio gydag UCAS a HESA i gael gafael ar ddata sy'n galluogi monitro perfformiad recriwtio sefydliadol yng Nghymru. Mae swyddogion y Cyngor Cyllido ar bob lefel yn gweithio gyda swyddogion cyfatebol yn Lloegr a gweddill y Deyrnas Unedig yn holl feysydd polisi Addysg Uwch, mae hyn yn cynnwys trefniadau gyda Lloegr a'r Alban i Brif Swyddogion Gweithredol fynychu cyfarfodydd llawn Cynghorau Cyllido ei gilydd.

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r Cyngor Cyllido bob chwarter i drafod a monitro eu perfformiad. Mae'r Cyngor Cyllido hefyd yn aelod o Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth Myfyrwyr Llywodraeth Cymru sy'n monitro ac yn dadansoddi data'n ymwneud â niferoedd myfyrwyr.

- Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r manteision a ddaw drwy ddenu myfyrwyr rhyngwladol i Gymru, o ran amrywiaeth ddiwylliannol ond hefyd o ran y budd economaidd i Gymru. Mae myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru yn creu cyfraniad gwerth ychwanegol o fwy na £140 miliwn y flwyddyn i'r economi.

- Mae Llywodraeth Cymru yn aelod o Fwrdd Cynghori Uned Ryngwladol Addysg Uwch y Deyrnas Unedig, ynghyd â chydweithwyr o'r Cyngor Cyllido ac Addysg Uwch Cymru (HEW). Mae'r Bwrdd Cynghori yn cwrdd bob chwarter ac yn ystyried effaith polisïau mewnfudo Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar recriwtio myfyrwyr. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae gostyngiad wedi bod yn nifer y myfyrwyr o India sy'n astudio yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yng Nghymru, oherwydd anawsterau tybiedig yn cael fisa Haen 4 ond hefyd oherwydd cryfder cymharol y bunt yn erbyn y rupee. Gwnaed iawn am hyn drwy gynnydd yn nifer y myfyrwyr Tsieineaidd sy'n astudio yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yng Nghymru. Mae swyddogion yn monitro tueddiadau o ran myfyrwyr rhyngwladol ac yn gweithio'n agos gyda'r

sector a chydweithwyr yn Lloegr er mwyn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn ddewis gyrchfan i fyfyrwyr rhyngwladol.

**Goblygiadau Ariannol** – Does dim goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn

### Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro'r trefniadau cyllido ar gyfer y sector addysg uwch yn ofalus, nes y bydd yr Adolygiad yn cyhoeddi ei adroddiad interim cyntaf ac yn cyflwyno adroddiadau yn rheolaidd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel rhan o naratif y Gyllideb Ddrafft), ar unrhyw newidiadau a allai effeithio ar gyllido addysg uwch, er enghraifft unrhyw newidiadau o ran llif myfyrwyr yn drawsffiniol; nifer y myfyrwyr tramor; newidiadau polisi yn Lloegr ac ati. (Tudalen 18)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn yn rhannol

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r cyllid sydd ar gael i'r sector addysg uwch hyd at yr etholiad nesaf. Mae cylchlythyr diweddaraf y Cyngor Cyllido yn cadarnhau bod y sector yn dal i gael cynnydd incwm sydd uwchben chwyddiant mewn cyfnod o lymder ariannol. Mae'r cyllid cyffredinol sydd ar gael i'r sector (incwm ffioedd a chyllido'r Cyngor Cyllido) wedi cynyddu 11.1% yn 2014/15 a 13.8% yn 2013/14.

- Yn ogystal, byddwn yn parhau i fonitro effaith penderfyniadau polisi sy'n cael eu cymryd yn Lloegr yn ofalus (gan gynnwys newidiadau i batrymau recriwtio gan Brifysgolion Lloegr ac effaith hynny ar gyllido yng Nghymru).

- Yn sail i bolisi cyllido myfyrwyr mae model ariannol soffistigedig sy'n ystyried y sefyllfa ariannol bresennol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn ogystal â ffynonellau eraill o incwm sefydliadol megis ffioedd dysgu. Mae rhagamcanion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd wrth i ddata newydd neu fwy cadarn ddod i'r golwg. Caiff rhagamcanion wedi'u diweddaru eu cynhyrchu gan yr Adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ymddygiad myfyrwyr, tueddiadau demograffig, cyfraddau manteisio, ffactorau economaidd-gymdeithasol a data perthnasol arall yn cael ei hystyried.

  Mae penderfyniadau i ddiwygio'r tybiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y model yn seiliedig ar gyngor gan Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth

Myfyrwyr o swyddogion sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Is-Ardan Addysg Uwch, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Gwasanaethau Corfforaethol, Is-Adran Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyngor Cyllido.

Yn ogystal â thrafodaethau yn y Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth Myfyrwyr, mae'r tybiaethau modelu lefel uchel yn cael eu trafod ym Mwrdd Prosiect Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr. Mae'r Byrddau hyn yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni allweddol gan gynnwys y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, y Cyngor Cyllido, Addysg Uwch Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ar ôl eu diwygio caiff y tybiaethau, y data a'r ffactorau macro-economaidd eu rhoi i mewn yn y model cyllid myfyrwyr sy'n cynhyrchu rhagamcanion ar gyfer y dyfodol.

- Mae craffu blynyddol yn digwydd ar gyllid y llywodraeth drwy'r gyllideb ddrafft, ac nid yw'n fwriad gennyf gyflwyno mecanwaith pellach ar gyfer adrodd ar newidiadau i'r gyllideb addysg uwch.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanwl ar effaith y penderfyniadau polisi a wneir yn Lloegr, gan gynnwys yr hyn a benderfynir ar ôl etholiad cyffredinol 2015, ac yn arbennig i ba raddau y mae prifysgolion Lloegr yn denu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru:-

- sy'n denu cyllid ychwanegol o dan bolisïau "ehangu mynediad";
- sy'n cael graddau uchel mewn arholiadau Safon Uwch, er enghraifft ABB; neu
- na allant ddod o hyd i gwrs perthnasol mewn sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru. (Tudalen 19)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith y penderfyniadau polisi a wneir yn Lloegr yn ofalus (gan gynnwys newidiadau i batrymau recriwtio gan Brifysgolion Lloegr ac effaith hynny ar ariannu yng Nghymru).

- Mae ystyried llif trawsffiniol yn rhan o gylch gwaith Adolygiad Diamond. Bydd y panel sy'n gwneud yr Adolygiad, wrth wneud ei argymhellion yn 2016, yn ystyried effaith a goblygiadau posibl penderfyniadau polisi a

wneir yn Lloegr yn ystod oes yr adolygiad. Yn hyn o beth bydd angen i'r panel ystyried goblygiadau unrhyw newidiadau polisi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ôl etholiad 2015.

- Yn y cyfamser, mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth ynghylch llif trawsffiniol myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i Brifysgolion Lloegr.

**Goblygiadau Ariannol –** Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn

**Argymhelliad 4**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu sut y gall gefnogi sefydliadau sydd wrth y ffin â Lloegr, er mwyn cystadlu'n fwy effeithiol â sefydliadau yn Lloegr, er enghraifft drwy adolygu cystadleuaeth leol am gyrsiau penodol; ariannu prosiectau cyfalaf ac ati. (Tudalen 20)

Ymateb Llywodraeth Cymru – heb ei dderbyn

- Mae sefydliadau Cymru yn cystadlu mewn marchnadoedd yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang am fyfyrwyr y Deyrnas Unedig a myfyrwyr rhyngwladol, ac nid dim ond gyda'r rhai sy'n agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

- Bydd y Cyngor Cyllido yn parhau i weithio gyda Sefydliadau er mwyn annog dull cydweithredol gyda sefydliadau addysg uwch eraill i ddarparu cyrsiau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- Bydd y Cyngor Cyllido yn monitro perfformiad cystadleuol sector addysg uwch Cymru yn erbyn sefydliadau yn Lloegr ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cwrdd â chynrychiolwyr y sector addysg uwch i drafod y posibilrwydd o weithio gyda'i gilydd i ddeall y galw strategol am gyllido prosiectau cyfalaf yng Nghymru, gyda'r nod o gael gafael ar gyllid o sefydliadau megis Banc Buddsoddi Ewrop.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu model manylach ar ddyledion myfyrwyr yn gyffredinol a'r llyfr benthyciadau i fyfyrwyr er mwyn amcangyfrif goblygiadau hirdymor dyledion myfyrwyr. (Tudalen 23)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

Mae modelu ar ddyledion myfyrwyr yn faes nad yw wedi ei archwilio'n llawn o safbwynt Llywodraeth Cymru, ac mae gofyn am waith pellach (ar y cyd â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr) er mwyn cael dealltwriaeth fwy llawn o oblygiadau hirdymor dyled myfyrwyr, yn enwedig wrth i ragor o ddata ddod i'r amlwg ar y drefn ffioedd newydd.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol yr Is-Adran Addysg Uwch

**Argymhelliad 6**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r opsiynau ar gyfer bod yn rhan o ddatblygiadau pellach model HERO yr Adran Busnes a Sgiliau a ddefnyddir i fodelu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr ac a ellir gwneud addasiadau i ystyried polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid myfyrwyr. (Tudalen 23)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod ei hymwneud â datblygiadau pellach o fodel yr Adran Busnes a Sgiliau ar gyfer cyfrifo Cymhorthdal y Llywodraeth ar gyfer darparu benthyciadau myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys sut mae swyddogion yn rheoli'r broses o ddatblygu'r model i gynnwys polisïau unigryw Cymru.

- Byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog Prifysgolion a Gwyddoniaeth yn Lloegr a byddaf yn ymateb i'r Pwyllgor ar yr argymhelliad hwn unwaith y byddaf wedi cael ymateb.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol yr Is-Adran Addysg Uwch

**Argymhelliad 7**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio:

- a oes tystiolaeth nad oes angen i nifer gynyddol o raddedigion ad-dalu eu benthyciadau myfyrwyr am nad ydynt yn bodloni'r gofynion trothwy enillion angenrheidiol i wneud hynny, neu eu bod yn methu ag ad-dalu'r benthyciadau am resymau eraill;

- a yw nifer y myfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i'w cwrs cyn ei gwblhau yn cynyddu? (Tudalen 23)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i gytuno ar gylch gorchwyl i ymchwilio i ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr yn erbyn trothwyon ennill a rhesymau am beidio â thalu. Bydd gofyn i Lywodraeth Cymru gomisiynu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, o bosibl mewn cydweithrediad â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr er mwyn paru data ynghylch graddedigion unwaith y byddant mewn gwaith.

- Ar hyn o bryd mae gofyn i'r Cyngor Cyllido fonitro ffigurau cadw myfyrwyr amser llawn a myfyrwyr rhan-amser fel un o fesurau'r Strategaeth Gorfforaethol.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol yr Is-Adran Addysg Uwch

**Argymhelliad 8**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ymwybyddiaeth o'r grant ffioedd dysgu yn gynharach (ym mlwyddyn 9, o leiaf) yn ystod addysg myfyrwyr. Dylid hefyd sicrhau cysondeb o ran sut y codir ymwybyddiaeth. (Tudalen 26)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru gynnal gwaith i wella fy nealltwriaeth o'r rhesymau nad yw rhai myfyrwyr yn hawlio'r grant ffioedd dysgu. Yn ogystal, rwyf wedi gofyn iddynt ehangu cwmpas y gwaith i gynnwys holl grantiau Llywodraeth Cymru (â phrawf modd, a heb brawf modd).

- Bydd Adran Gwasanaethau Rheoli Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn datblygu system a fydd yn galluogi peth dadansoddi manwl pellach mewn meysydd lle mae'r niferoedd sy'n manteisio yn isel.

- Er bod y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn hyrwyddo'r grant ffioedd dysgu ymhob deunydd perthnasol ac yn gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo'r polisi, nid ydynt ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar y grŵp oedran hwn yn benodol; maent yn tueddu i weithio gyda myfyrwyr a'u rhieni yn nwy flynedd olaf yr ysgol.

  Byddwn yn gwneud cais ffurfiol i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr gynnal adolygiad o'i strategaeth gyfathrebu (gan gynnwys canlyniadau adborth rhanddeiliaid a boddhad cwsmeriaid) yn ystod blwyddyn gyntaf

gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi'i foderneiddio, er mwyn sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu'n effeithiol ac er mwyn trafod beth fyddai'r ffordd orau o gyrraedd y gynulleidfa hon mewn ffordd gost-effeithiol.

- Mae angen trafodaethau gyda Llywodraeth leol ynghylch sut a phryd y gallant godi ymwybyddiaeth o gyllid myfyrwyr ymhlith myfyrwyr mewn addysg uwchradd.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol yr Is-Adran Addysg Uwch.

**Argymhelliad 9**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y myfyrwyr sy'n byw gartref tra maent yn astudio er mwyn canfod a yw'r tueddiad hwn yn cynyddu. (Tudalen 26)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cais i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr gynnal gwaith i ystyried tueddiadau posibl yn y maes hwn, o bosib gyda chefnogaeth data HESA ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol yr Is-Adran Addysg Uwch

**Argymhelliad 10**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil i ganfod a yw costau byw yn peri mwy o bryder na chostau ffioedd dysgu i fyfyrwyr. (Tudalen 26)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn yn rhannol

- Mae ymchwil yn ymdrin â rhai elfennau o flaenoriaethau cyllido ar gyfer myfyrwyr wedi ei gwblhau eisoes gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (barn myfyrwyr ar gostau astudio a dyledion [Punt yn eich Poced,

Cymru 2014]), ond mae bylchau y gallai Adolygiad Diamond eu comisiynu, yn dibynnu ar gyfeiriad yr Adolygiad a chostau'r ymchwil. Cyllideb benodol sydd gan Banel Adolygiad Diamond, ac felly mae angen iddo fod yn ddewisol wrth ystyried pa ymchwil i'w chomisiynu. Fel corff annibynnol, mae angen caniatáu iddo benderfynu drosto'i hun (yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd iddo) ynghylch pa ymchwil sy'n ofynnol.

- Mae angen trafodaethau pellach ynghylch y gwaith sydd i'w gynnal yn fewnol yn Llywodraeth Cymru ac yn allanol am y mathau o ymchwil sy'n cael eu cynllunio yn y dyfodol er mwyn nodi a ellid comisiynu ymchwil o'r fath.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol yr Is-Adran Addysg Uwch

**Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â CCAUC, fonitro faint o arian a gaiff ei wario ar fentrau ehangu mynediad a monitro a yw'r arian hwn yn cynrychioli gwerth am arian ac a yw'n bodloni'r nod o gynorthwyo myfyrwyr o gartrefi incwm is. (Tudalen 29)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Cyngor Cyllido fonitro ac adrodd ar weithgareddau ehangu mynediad yn ystod blwyddyn academaidd 2014-15 gan gynnwys cyfran cyllid ffioedd myfyrwyr sy'n cael ei neilltuo i weithgarwch ehangu mynediad a chyfranogiad. Mae ehangu mynediad yn cynnwys sawl agenda sy'n ymwneud â myfyrwyr sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y byd addysg uwch, nid dim ond y rhai sydd o gartrefi incwm isel. Mae cydnabyddiaeth eang i'r ffaith ei bod yn anodd deall y berthynas rhwng gwahanol ymyriadau ehangu mynediad penodol a'u canlyniadau, ac felly ei bod yn anodd mesur yr enillion ar fuddsoddiad. Rwy'n cydnabod bod mwy o wariant ar ehangu mynediad na'r hyn sy'n amlwg mewn dyraniadau 'ffurfiol' o arian ar gyfer y maes hwn, fel dyraniadau HEFCW i Bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach.

- Rwyf wedi dweud yn glir bod angen gwella'r ffordd y mae'r Cyngor Cyllido yn mesur effaith mentrau ehangu mynediad ac addysg uwch yn gyffredinol ar y rhai o ardaloedd o gyfranogiad isel. Er enghraifft, mae'r cynlluniau ffioedd y mae'n rhaid i sefydliadau eu cyflwyno i'r Cyngor Cyllido yn ffynhonnell bwysig eisoes o dystiolaeth ynghylch sut maent yn defnyddio incwm ffioedd dysgu er mwyn bodloni blaenoriaethau ehangu mynediad.

  Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r Cyngor Cyllido er mwyn archwilio ffyrdd y gellid gwneud canllawiau'r cynllun ffioedd, sy'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol, yn fwy eglur o ran ystyr ehangu mynediad a'r hyn rwy'n disgwyl ei weld o ran gweithgareddau a gwariant cysylltiedig y sefydliadau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Cyllido yn dal i fonitro'r canlyniadau mewn cyfres o fesurau ehangu mynediad, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hasesu ar lefel y Deyrnas Unedig.

- Mae ehangu mynediad wedi ei gynnwys hefyd yng nghylch gorchwyl yr Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr. Byddwn yn disgwyl felly y gallai adroddiad terfynol Panel yr Adolygiad gynnwys argymhellion sy'n ymwneud â'r maes hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol yr Is-Adran Addysg Uwch

**Argymhelliad 12**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â CCAUC, fonitro nifer y myfyrwyr addysg uwch rhan-amser yng Nghymru i ganfod a oes unrhyw newidiadau mewn tueddiadau.

Yn ogystal â hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfeiriad polisi strategol interim clir yn cael ei bennu ar gyfer addysg uwch rhan-amser hyd at flwyddyn academaidd 2016/17, o leiaf. (Tudalen 32)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn yn rhannol

- Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro nifer y myfyrwyr addysg uwch rhan-amser i ganfod unrhyw newidiadau mewn tueddiadau o ganlyniad i gyflwyno benthyciadau ffioedd rhan-amser.

- Rwyf wedi dweud yn glir wrth y Cyngor Cyllido bod Addysg Uwch yn dal i fod yn flaenoriaeth i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd angen imi ystyried datganiad safbwynt y Cyngor ar

ddarpariaeth ran-amser, yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyllid Addysg Uwch a chanfyddiadau Adolygiad Diamond cyn y gallaf werthuso'r camau nesaf.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â CCAUC, yn gweithredu pecyn ariannu cyfannol a strategol ar gyfer astudio rhan-amser ac ar gyfer y Brifysgol Agored, ar gyfer blynyddoedd academaidd 2014/15 a 2015/16, o leiaf, fel strategaeth interim nes y bydd gwaith adolygiad yr Athro Syr Ian Diamond wedi'i gwblhau. (Tudalen 32)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn yn rhannol

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno benthyciadau ffioedd rhan-amser o 2014/15 ymlaen er mwyn cefnogi a hyrwyddo astudio rhan-amser yng Nghymru, ac mae cyllid ychwanegol wedi ei ddarparu er mwyn cefnogi'r Brifysgol Agored yn 2013/14 a 2014/15 er mwyn lleddfu effaith trosglwyddo cyllid HEFCW er mwyn cefnogi grantiau ffioedd myfyrwyr israddedig amser llawn.

- O ystyried mai erbyn 2016 y mae disgwyl i Adolygiad Diamond gwblhau ei waith, mae angen amserlen hwy ar gyfer cyflwyno pecyn cyllido strategol a fydd yn gyfannol ac yn fforddiadwy, ac yn ymarferol ni fyddai modd gweithredu hynny ar gyfer y naill na'r llall o'r blynyddoedd academaidd a awgrymir.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 14**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CCAUC i sicrhau bod pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn cael lefel fach, safonol o gyllid ymchwil, er enghraifft £500,000, os nad ydynt yn gymwys i gael unrhyw gyllid pellach o dan y fformiwla "rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy". (Tudalen 35)

Ymateb Llywodraeth Cymru – gwrthod

Mae ymchwil yn broses gystadleuol iawn, ac mae'r Cyngor Cyllido wedi bod yn dilyn symudiadau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol lle mae gweithgarwch ymchwil yn cael ei ganolbwyntio mewn timau ymchwil mwy o faint sydd â digon o adnoddau (fel mae canlyniadau'r Ymarfer Asesu Ymchwil yn ei ddangos).

Mae hyn yn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddarparu i unedau sydd ag ymchwil ardderchog ac sy'n ddigon mawr i fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mewn cyfnod pan fo adnoddau yn gyfyngedig ac yn crebachu, nifer gymharol fach o brifysgolion sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r ymchwil nodedig – yng Nghymru, pum sefydliad sy'n gwneud 95 y cant o'r holl ymchwil prifysgol – ac mae hyn wedi arwain at ganolbwyntio cyllid ymchwil o ansawdd da a chyllid ymchwil arall mewn llai o sefydliadau.

Mae hyn hefyd yn cynnal perfformiad ac yn caniatáu i sefydliadau yng Nghymru gystadlu'n effeithiol gyda phrifysgolion mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig am grantiau Cynghorau Ymchwil a grantiau ymchwil eraill.

Nid yw'n ymddangos bod llawer o ddiben gwasgaru cyllid prin ymchwil o ansawdd da rhwng nifer fawr o dimau ymchwil bach, gweddol eu hansawdd. Mae'r Cynghorau Ymchwil eu hunain yn canolbwyntio ar ariannu rhagoriaeth ac ymchwil amlddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â heriau gwyddonol a chymdeithasol mawr. Mae hyn yn arwain at dwf timau ymchwil mwy o faint sydd wedi'u hariannu'n well. Os yw prifysgolion Cymru am barhau i fod yn gystadleuol er mwyn cael grantiau Cynghorau Ymchwil a grantiau allanol eraill, mae'n rhaid iddynt hwythau hefyd ddatblygu o ran maint ac amrywiaeth yn ogystal â gwella eu hansawdd. Bydd gwasgaru cyllid ymchwil o ansawdd da drwy ryw syniad bod "angen gwobrwyo pawb" yn ein hatal rhag cyflawni'r amcanion hyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn.

### Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymell cynnal adolygiad o ddarpariaeth ôl-raddedig, gan gynnwys trefniadau cyllido. (Tudalen 35)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn yn rhannol

- Mae darpariaeth ôl-raddedig yn rhan o gylch gorchwyl Adolygiad Diamond, ond byddai'n rhaid ystyried y cylch gwaith, y gallai fod angen ei ehangu er mwyn cynnwys darpariaeth a chyllido.
- Mae'r Cyngor Cyllido wrthi ar hyn o bryd yn drafftio papur sy'n archwilio'r pynciau hynny nad ydynt ar gael yng Nghymru, ar lefel israddedig ac ar lefel ôl-raddedig.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn.

### Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC fonitro effaith y gyfundrefn gyllido ffioedd/benthyciadau bresennol ar nifer y myfyrwyr sy'n astudio pynciau drud yng Nghymru a monitro safon y ddarpariaeth o bynciau drud. (Tudalen 37)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

- Mae'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012-13 wedi rhoi'r sector addysg uwch mewn sefyllfa ariannol lawer cryfach er mwyn cefnogi pynciau drud. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu y bydd y gyfundrefn gyllido newydd yn cyfrannu £200m yn ychwanegol yn ystod oes y Llywodraeth hon o gymharu â'r fformiwla gyllido flaenorol. O ystyried y cynnydd o ran cyllid sydd ar gael i'r sector, dylai fod disgwyliad ar sefydliadau i dderbyn bod yr hyn a ariennid gan y Cyngor Cyllido drwy ffrydiau cyllido penodol yn y gorffennol, yn gyfrifoldeb arnynt hwy bellach oherwydd bod y canlyniadau yn bwysig i Gymru.

- Da yw gweld bod cynnydd yn parhau i fod o ran ymrestru ar gyrsiau pynciau STEM yn addysg uwch, sy'n awgrymu bod y ddarpariaeth yng Nghymru yn ddeniadol i ddarpar fyfyrwyr.

- Bydd y Cyngor Cyllido yn parhau i fonitro tueddiadau mewn pynciau o bwys ehangach i Gymru, gan gynnwys darpariaeth STEM. Caiff trefniadau sicrhau ansawdd ym maes addysg uwch yn y Deyrnas Unedig eu cynnal gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) sy'n canolbwyntio ar gyfrifoldebau dyfarnu'r brifysgol ac nid ar lefel pwnc unigol.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 17**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso cynnydd a gwerth am arian y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. (Tudalen 38)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

Cafodd y Cyngor Cyllido dasg yn 2013-14, sef cynnal gwerthusiad o ganlyniad gweithgareddau'r Coleg, gan gynnwys adolygiad o'r cyllid sy'n cael ei ddarparu i'r Coleg a rhoi manylion yr adolygiad i fy swyddogion erbyn mis Medi 2013 gydag adroddiad terfynol erbyn mis Medi 2014. Mae'r adolygiad hwnnw ar y gweill ar hyn o bryd, ac yn cael ei gynnal gan gwmni ymgynghori Oldbell3, a bydd yn adrodd erbyn diwedd mis Medi 2014.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 18**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio a yw cyfanswm nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi neu'n disgyn ac, os oes angen, yn archwilio:

- y rhesymau pam nad yw nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi;

- y rhesymau pam nad yw'r holl fyfyrwyr sydd wedi dilyn addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i astudio cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg;

a chytuno ar gynllun gweithredu gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael ag unrhyw drafferthion. (Tudalen 38)

Ymateb Llywodraeth Cymru – derbyn

- Bydd y Cyngor Cyllido yn parhau i fonitro'r materion sy'n cael eu codi yn yr argymhelliad hwn. Mae un o'r targedau yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor Cyllido 2013-2016 yn anelu at gynyddu nifer y myfyrwyr addysg uwch sy'n gwneud o leiaf 5 credyd ac o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Adroddir ar berfformiad yn erbyn targedau'r strategaeth gorfforaethol bob blwyddyn yn adroddiad blynyddol y Cyngor Cyllido.

- Bydd y gwerthusiad o'r Coleg, y cyfeirir ato uchod, yn ymchwilio i'r materion hyn yn fanylach a byddwn yn aros am argymhellion y gwerthusiad cyn gweithredu ymhellach. Mae rhai o atebion y cwestiynau hyn yn ymwneud â threfniadau addysg cyn cyrraedd addysg uwch.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad hwn.

**Huw Lewis AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 9 Gorffennaf 2014
Ein cyf: HVT/2179/fgb
Tudalen: 1 o 4

Annwyl Darren

**CYLLID ADDYSG UWCH**

Ysgrifennaf ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i'm hadroddiad ar *Gyllid Addysg Uwch* a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013. Er mwyn helpu i lywio unrhyw gamau pellach a gymerir gan y Pwyllgor, rwyf hefyd wedi nodi isod y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru y cyfeirir ato yn fy adroddiad a oedd yn dal i fynd rhagddo pan wnes i a staff Swyddfa Archwilio Cymru friffio'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2014.

**Gwaith a gomisiynwyd ar brosesu ceisiadau myfyrwyr am gyllid a gwaith paru data cysylltiedig**

Fel y nodwyd yn fy adroddiad *Cyllid Addysg Uwch* (paragraffau 2.35-2.41), roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu rhagor o waith gan Swyddfa Archwilio Cymru i adolygu gweithrediad rheolaethau mewn perthynas â cheisiadau myfyrwyr am gyllid mewn naw awdurdod lleol. Dilynodd y gwaith hwnnw adolygiad o reolaethau a gynhaliwyd yn 2012 mewn pedwar awdurdod lleol arall. Nododd yr adroddiad diweddaraf, ers adolygiad 2012, fod Llywodraeth Cymru wedi gwella agweddau ar ei threfniadau ar gyfer goruchwylio a rheoli cyllid myfyrwyr, er bod nifer fach o wendidau sylweddol o hyd yn y system reoli gyffredinol a weithredir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac awdurdodau lleol. Mae'r adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion wedi'u hystyried gan bwyllgor llywodraethu corfforaethol yr Adran Addysg a Sgiliau.

Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi bod yn hwyluso ymarfer paru data y bwriadwyd iddo edrych ar y defnydd a wneir o waith paru data i fynd i'r afael â gwendidau rheoli posibl yn nhrefniadau asesu cyllid myfyrwyr, yn enwedig o ran y Grant Ffioedd Dysgu. Gwnaed y gwaith prosesu data ei hun gan y Comisiwn Archwilio. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith hwn a oedd yn

cwmpasu tair ardal awdurdod lleol beilot (sef Caerdydd, Abertawe a Wrecsam) i Lywodraeth Cymru. Roedd y gwaith yn cynnwys paru manylion cyfeiriadau myfyrwyr a oedd yn gwneud cais am gymorth â data etholiadol. Nod yr ymarfer hwn oedd nodi unrhyw anghysondebau rhwng y setiau data a allai fod wedi deillio o dwyll neu wall (tra'n derbyn y gall gwahaniaethau amseru hefyd achosi anghysondebau). Nod yr ymarfer oedd nodi unrhyw barau negyddol: y myfyrwyr hynny a oedd wedi gwneud cais am gyllid myfyrwyr drwy awdurdod lleol yng Nghymru ond nad oeddent yn ymddangos yn y data etholiadol diweddaraf ar gyfer Cymru. Ar gyfer pob un o'r parau negyddol hyn, nododd y broses hefyd o'r data etholiadol p'un a oedd rhywun arall â'r un enw teuluol yn byw yn yr un cyfeiriad ai peidio.

Asesodd staff Swyddfa Archwilio Cymru y risg a oedd yn gysylltiedig â chanlyniadau'r gwaith paru data a rhoddodd ganllawiau i'r tri awdurdod lleol er mwyn ategu eu hymchwiliadau dilynol. Hysbysodd yr awdurdodau lleol staff Swyddfa Archwilio Cymru eu bod wedi llwyddo, i raddau helaeth, i gael tystiolaeth i ddangos bod ymgeiswyr yn gymwys i gael y Grant Ffioedd Dysgu (lle roedd parau negyddol wedi'u nodi). Fodd bynnag, argymhellodd staff Swyddfa Archwilio Cymru i Lywodraeth Cymru y dylai geisio sicrwydd gan yr awdurdodau lleol o ran canlyniadau eu hymchwiliadau yn y pen draw a'r dystiolaeth a gawsant wrth gynnal eu hymchwiliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'm hadroddiad *Cyllid Addysg Uwch* a chamau gweithredu pellach gan y Pwyllgor**

Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, deallaf nad yw'r Pwyllgor wedi cael ymateb gan CCAUC eto i argymhellion saith ac wyth yn fy adroddiad. Roedd yr argymhellion hynny yn ymwneud â phroses ‘adolygu risg’ CCAUC a rôl CCAUC o ran nodi, lledaenu a hyrwyddo arfer da.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion yn fy adroddiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn derbyn pob un o'r chwe argymhelliad a gyfeiriwyd ati. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru fod wedi nodi'n gliriach yr amserlen debygol ar gyfer cymryd y camau gweithredu a nodwyd ganddo mewn ymateb i argymhellion pump a chwech, yn arbennig o ystyried yr amser sydd eisoes wedi mynd heibio ers fy adroddiad.

Pan drafododd y Pwyllgor fy adroddiad ym mis Ionawr 2014, nododd ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i *Gyllid Addysg Uwch* a oedd yn dal i fynd rhagddo. Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn ymdrin â rhai o'r meysydd y rhoddwyd sylw iddynt yn fy adroddiad ac rwy'n ymwybodol bod adroddiad y Pwyllgor Cyllid wedi'i drafod yn ddiweddar mewn Cyfarfod Llawn. At hynny, mae gwaith yr *‘Adolygiad o Gyllid Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru’* yn dal i fynd rhagddo a disgwylir i'r Cynulliad Cenedlaethol, fel rhan o'i waith craffu ar gyllidebau rheolaidd, gael cyfle i fonitro goblygiadau ariannol y polisi ffioedd dysgu presennol. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y

Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ddiweddar er mwyn tynnu sylw at faterion sy'n deillio o'm hadroddiad, ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo, sy'n berthnasol i waith craffu'r Pwyllgor hwnnw ar y Bil Addysg Uwch (Cymru).

Ym mis Ionawr 2013, nodwyd gennym fod un o'r materion a oedd yn deillio o'm hadroddiad nad y Pwyllgor Cyllid, yn ôl pob golwg, wedi rhoi cymaint o sylw iddo yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer gwerthuso'r llyfr benthyciadau myfyrwyr a thaliadau dileu dyled blynyddol y polisi benthyciadau (paragraffau 2.7 to 2.11). Fodd bynnag, mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn cynnwys adran ar y llyfr benthyciadau myfyrwyr ac ymdriniwyd â llawer o'r materion cysylltiedig hefyd gan adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus San Steffan, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014, ar *Ad-daliadau Benthyciadau Myfyrwyr*, a ddilynodd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar yr un pwnc ym mis Tachwedd 2013. Dylai'r ystyriaeth y bwriedir ei rhoi i gyfrifon cyfunol 2013-14 Llywodraeth Cymru roi cyfle i'ch Pwyllgor wneud gwaith dilynol ar y materion hyn o safbwynt Llywodraeth Cymru.

Y mater arall y gwnaethom dynnu sylw'r Pwyllgor ato ym mis Ionawr 2014 oedd prosiect moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru (paragraffau 2.26 i 2.34 o'm hadroddiad). Bydd y prosiect hwnnw yn gweld y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am brosesu ceisiadau am gyllid a gyflwynir gan bob myfyriwr newydd a phob myfyriwr sy'n dychwelyd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16, ar ôl iddo ymgymryd â'r gwaith o brosesu ceisiadau gan fyfyrwyr newydd yn unig yn 2014/15. Roedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi mynegi rhywfaint o bryder ynghylch y newidiadau hyn wrth gyflwyno adroddiad ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) ym mis Gorffennaf 2013.

Mae ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion dau a phedwar yn fy adroddiad yn berthnasol i brosiect moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru. Fel y nodwyd yn yr adroddiad (paragraff 2.38), mae digonolrwydd rheolaethau sy'n ymwneud â thaliadau'r Grant Ffioedd Dysgu yn berthnasol i'm barn ar ddatganiadau ariannol CCAUC. Mae'n debygol y bydd y tîm yn Swyddfa Archwilio Cymru sy'n archwilio cyfrifon CCAUC yn gwneud rhagor o waith yn ystod 2014-15 i geisio sicrwydd ynghylch cadernid trefniadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ei hun ar gyfer prosesu ceisiadau myfyrwyr am gyllid. Nid oedd manyleb gwasanaeth canoledig newydd Cyllid Myfyrwyr Cymru na chostau'r gwasanaeth hwn wedi'u penderfynu'n derfynol ar adeg ysgrifennu fy adroddiad, ond mae'r costau hyn ac arbedion posibl yn y dyfodol yn fater arall y gellid ei ystyried fel rhan o'r gwaith o graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

**Sir Derek Jones KCB**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AM
Chair – Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

23rd June 2014

Dear Darren,

**WALES AUDIT OFFICE REPORT**
**THE WELSH GOVERNMENT'S LOCATION STRATEGY - RESPONSE TO THE REPORT**

Thank you for your letter dated 15 May 2014 asking for a response to the specific recommendations contained in the Auditor General's report into the Welsh Government's Location Strategy. I'm sorry that you have had to ask for this twice.

The attached note (Annex A) sets out the Welsh Government's response to each of the five recommendations contained in the report.

I hope that this provides the Committee with a clear picture of our considered response to the Wales Audit Office Report. I note that the Committee have agreed to defer further consideration of the Report.

We would be delighted to welcome any members of your Committee to our new buildings if they wish to see the new facilities.

Yours,

Derek

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • Website: www.wales.gov.uk

**Annex A**

***Recommendation 1:***

***The Welsh Government should strengthen the way it identifies and appraises options to inform key decisions on how its strategic objectives should be delivered. In particular the Welsh Government should:***

- ***undertake option appraisal and cost-benefit analysis in line with Green Book guidance for all major programmes and projects; and***
- ***Revisit option and financial appraisals at key stages, such as when major changes to a programme or project takes place, to check that the chosen option continues to offer the best value for money.***

**Accepted**. The requirement to undertake these activities is presently part of the Business Case Guidance which has been jointly developed by the Welsh Government and HM Treasury and was first published in the autumn of 2006.

The Five Case Model methodology is the recommended, best practice approach for developing spending proposals in the public sector. The Welsh Government mandated this methodology in May 2012 for all new programmes and projects which are included in the Wales Infrastructure Investment Plan (WIIP).

To improve capacity and capability circa 150 Welsh Government staff have been trained over the past year on how to undertake options appraisal and apply Cost-Benefit Analysis (CBA) in accordance with the Treasury Green Book. In addition, the Welsh Government is currently refreshing its Business Case guidance which will be completed this autumn and will reinforce the need to revisit options appraisal at the programme level.

In May 2014 the Welsh Government launched an accreditation scheme for the training of business case practitioners and reviewers known as the Better Business Case Programme. This programme is jointly run between the Welsh Government and HM Treasury; it is designed to ensure that Welsh Government staff have the requisite skills and competencies to undertake appraisals to a high standard.

The Welsh Government Integrated Assurance Hub, within the Finance and Corporate Services department (accredited by Cabinet Office) and provides assurance that supports the Better Business Case methodology. The Integrated Assurance Hub exists to provide assurance and delivery confidence to the Senior Responsible Owner (SRO) of the programme or project through the assessment of potential risk. This assessment of risk and the complexity of the programme or project determines the level of assurance necessary to provide the SRO with an independent appraisal of options and value for money. The tools available through the Integrated Assurance Hub range from a desktop exercise, through to a comprehensive Office of Government Commerce Gateway review, depending on the potential risk and level of assurance needed.

The risk assessment process is mandatory and assesses the risk against a standard set of high level criteria in a strategic context. If the risk assessment is high enough, further analysis of the complexity is undertaken and the most applicable assurance method for the programme or project is identified.

The Welsh Government Integrated Assurance Hub is accredited by Cabinet Office to undertake the OGC Gateway Reviews. The OGC Gateway review process provides an independent source of assurance to the SRO at five key stages throughout the project lifecycle, these are:

- Gateway 0 – Strategic Assessment;
- Gateway 1 – Business Justification;
- Gateway 2 – Delivery Strategy;
- Gateway 3 – Investment Decision;
- Gateway 4 – Readiness for Service; and
- Gateway 5 – Operational review and Benefits realisation.

***Recommendation 2:***

***The Welsh Government should make sure that:***

- ***major projects and programmes are subject to effective strategic overview and scrutiny, and that robust governance and financial controls are in place; and***
- ***The terms of reference of major project and programme boards include the frequent and regular monitoring and review of estimated costs against budgets so that they can make timely interventions.***

**Accepted.** The Welsh Government recognises the need for an effective strategic overview of its high profile programmes and the Principal Accounting Officer receives regular updates on their progress. Additionally The First Minister receives quarterly capital updates; these collate all Welsh Government capital schemes with a total scheme value of over £500,000.

To improve visibility and transparency of the Welsh Governments capital investment schemes, the Minister for Finance publishes the Welsh Infrastructure Investment Plan Pipeline. This is a forward looking paper that of schemes that exceed a total value of £15m.

Accountability for the successful delivery of projects and programmes sits with the respective SRO and Additional Accounting Officer. This includes responsibility for implementing rigorous financial controls and having robust governance arrangements in place. The Welsh Government has identified Programme and Project Management (PPM) as a key skill within its Capability Plan. Accordingly appropriate training, guidance, an SRO Community of Practice, and support from the PPM Division is provided to ensure that all SROs are equipped to successfully deliver projects efficiently and effectively.

The Welsh Government Integrated Assurance Hub also provides assurance of Major Projects through the OGC Gateway process ensuring that complex, high priority, high risk or cross-cutting projects are being delivered in accordance with best practice and remain aligned to strategic and operational priorities throughout their lifecycle. This mechanism also considers the governance arrangements and the likelihood of benefit realisation.

A comprehensive suite of guidance is available to all staff within the Welsh Government on both PPM and Assurance including guidance on project boards and their terms of reference. This guidance identifies that the Project Board has a responsibility in respect to financial management and governance of the project. This will be developed further to take account of this recommendation.

***Recommendation 3:***

***In determining how to manage larger programmes and projects, the Welsh Government should follow the example set in the latter stages of the Location Strategy Programme by ensuring the right mix of skills within programme and project teams.***

**Accepted.** The Welsh Government recognises the WAO view, that successful delivery of projects and programmes is fundamental to delivering the Programme for Government. In order to achieve this outcome Welsh Government staff need to be familiar with, and practiced in, programme and project techniques and methodology. There has been considerable progress in this area over recent years. In July 2012 Programme & Project Management Division (PPM Division) was established and staffed by experienced practitioners whose role is to improve the capacity and capability of staff throughout Welsh Government.

The right mix of skills is essential for successful delivery and, depending on the type of Programme or Project; there will need to be a degree of specialism and expertise in other areas to support delivery. In addressing the need for an appropriate mix of PPM skills a considerable amount of work has been undertaken in ensuring that SROs understand their own key leadership role and what is required from them regarding staff resourcing and the mix of skills within their teams to enable successful delivery of a programme or project. SRO's are supported via a central pool of skilled staff that have a wide range of skills including Policy, Digital, Business Analysts and Legislation, to help deliver the programme or project.

To address the WAO recommendations PPM Division has introduced the following initiatives:

- Established a Centre of Expertise with experienced staff who are able to offer advice and guidance to WG staff involved in projects and programmes.
- Created a Community of Practice with a formal programme for sharing of lessons learned (both internally & externally)
- Provided PPM mentoring to Welsh Government staff where required
- Organised one-off events for Welsh Government staff focusing on specific

topics and areas of interest
- Assisted with the design and development of the Better Business Case training for Welsh Government staff embarking on projects
- Designed a suite of PPM training courses and templates which are available to all Welsh Government staff (so far over 560 Welsh Government staff have attended these courses).

In addition the Welsh Government is developing a cadre of PPM practitioners for deployment through a pool of specialised staff who can be deployed to priority projects.

***Recommendation 4:***

***At the outset of any programme or project, the Welsh Government should make sure that the anticipated benefits are clearly established, realistic and deliverable. In addition, the Welsh Government should compile a benefits realisation strategy to support the delivery of benefits.***

***The strategy should include:***
- ***identifying at the outset clearly defined benefits which are linked to strategic objectives;***
- ***maintaining throughout the duration of the programme or project a clear and consistent understanding of the expected benefits;***
- ***managing the delivery of these benefits, where possible measuring progress against robust baseline data, steering projects and programmes to realise the benefits identified, and taking advantage of opportunities to enhance benefits;***
- ***ensuring business areas are committed to realising the benefits allocated to them;***
- ***engaging relevant stakeholders so that they own and support the delivery of benefits;***
- ***undertaking robust and evidence based analysis of the benefits achieved, including the wider impact of the programme or project; and:***
- ***Continuing to monitor and analyse the benefits for a sufficient period after programme or project closure, to allow the full impact of benefits to be recognised.***

**Accepted**. There may in the past have been insufficient focus on identifying benefits at the outset of a project or programme and an absence of follow up to ensure that on completion benefits have been realised.

The Welsh Government has in recent years increased the intensity of its focus on the successful realisation of the benefits envisaged at the outset of programmes and projects. The PPM Centre of Expertise (COE) plays a key role in this by supporting staff across Welsh Government through a wide range of activities including specific training, one to one support, workshops and presentations.

The OGC Gateway review framework also provides assurance on whether the project is on track to deliver the stated benefits. Gateway 5 of the process concerns itself with whether the benefits of the project have been realised and how these benefits can be sustained, owned and monitored.

We anticipate that as assurance reviews, such as the Cabinet Office Gateways are applied more widely to programmes and projects across WG, the focus on the realisation of benefits will become greater.

Benefit identification, monitoring and realisation are an essential part of any approach to Project and Programme Management. The Welsh Government PPM training focuses on identifying benefits and providing the tools and techniques to identify, measure, track and ultimately realise benefits in order to evidence successful delivery along the lines set out in this recommendation.

Some examples of this work are set out below.

- **Benefits Management Training:**

The PPM Division has taken the lead and is working in conjunction with external benefits experts to develop a Benefits framework with strategic end benefits which all programmes and projects can map themselves against.

Focused training sessions have been held with individual projects and groups of PPM staff to embed this approach. The Centre of Expertise continues to support the business and undertake project and programme benefit workshops.

- **SRO Network and Community of Practice:**

A Senior Responsible Owner (SRO) network has been established to ensure we have a consistent approach to the leadership of programmes and projects across the organisation. The network meets quarterly to share best practice on all aspects of project and programme management including the delivery of benefits.

- **SRO Master Classes and guidance:**

PPM Division has facilitated SRO master class training sessions to help SROs understand their role and responsibilities. In Early 2014 it launched specialist guidance designed to help SROs understand their role and responsibilities on a project and help them achieve project success, including the delivery of benefits.

This pocket guide has been distributed to all known SROs within the Welsh Government. It has also been shared with external Welsh Public Sector organisations who have engaged with the Division for help and guidance in PPM matters.

- **PPM Community Of Practice:**

The PPM Community of Practice was established to help identify, develop and promote best practice in PPM across all Welsh Government Projects and Programmes, including benefit realisation.

Meetings are usually held quarterly and there are now over 500 members including

a number from UK Government departments and public sector bodies in South Wales.

- **PPM intranet:**

PPM has been identified as one of the core skills required within the Welsh Government. The Welsh Government intranet hosts a range of information to help programme and project staff to deliver their project benefits. The intranet contains detailed guidance and templates which are structured around the ten core principles of project management.

***Recommendation 5:***

***The Welsh Government should evaluate the extent to which the 'Y Bont' facilities in the Aberystwyth and Llandudno Junction offices have successfully increased the public's engagement with, and awareness of, the Welsh Government. If the evaluation is positive, and if it is practicable and cost-Effective to do so, the Welsh Government should introduce 'Y Bont' facilities at the Merthyr Tydfil office.***

**Accept in principle.** We had to discontinue the dedicated staffing of "Y Bont" facilities on grounds of affordability. However, the Welsh Government takes the engagement of citizens extremely seriously and is the responsibility of all staff across the organisation rather than a discrete team. The Welsh Government continues to engage with the public through other multiple channels, that include school visits, marketing and campaigns, social media and Ministerial visits, among others.

Later this year we will be looking to review our marketing work which will include a benefits evaluation of our work around the public's engagement with, and awareness of the government, we will include the 'Y Bont' facilities in the Aberystwyth and Llandudno Junction offices in this work.

**Our Ref / Ein Cyf:** ST/SJ/PAC
**Your Ref / Eich Cyf:**
**Date / Dyddiad:** 8 July 2014
**Please ask for / Gofynnwch am:** Steve Thomas
**Direct line / Llinell uniongyrchol:** 029 2046 8610
**Email / Ebost:** steve.thomas@wlga.gov.uk

WLGA • CLlLC

Mr Darren Millar
Chair of the Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear Mr Millar

Please accept this apology. I appeared before the Public Accounts Committee last week in the Assembly and pointed out that the regulatory services collaboration between Cardiff, the Vale and Bridgend was potentially breaking down because of differential boundaries in the Williams Report proposals. I had previously been informed of this but I have now been told that following a recent meeting it was determined that the project should continue which is obviously good news.

This is occurring on the basis that the savings and resilience requirement is imminent and LGR is now further off. Speaking to the three Chief Executives involved it appears that the project is progressing "in spite of the Williams Report" and that the uncertainty it has created which has undermined confidence. Nevertheless I gave the information to the PAC in good faith and it turns out to be an error on my part. Thus I am sorry for the mistake and I hope this letter addresses this in full.

Yours sincerely

**Steve Thomas CBE**
Chief Executive / Prif Weithredwr

c.c. Clerk to the Public Accounts Committee

Steve Thomas CBE
Chief Executive
Prif Weithredwr

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

www.wlga.gov.uk



The WLGA welcomes correspondence in Welsh or English - Mae WLGA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
Printed on recycled paper - Wedi'i argraffu ar bapur eildro

Eitem 3.4



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 9 Gorffennaf 2014


Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Darren

**DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH GWERTH AM ARIAN YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL**

Ar 6 Mawrth, 2014, buom yn trafod gyda'r Pwyllgor y pynciau posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol, cyn rhannu gyda'r Pwyllgor bapur briffio manylach am raglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian. Ers hynny, rydym wedi defnyddio'r papur briffio hwnnw fel sail ar gyfer gwaith ymgynghori ehangach gydag, ymhlith eraill, Llywodraeth Cymru, pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol, y comisiynwyr yng Nghymru a chyrff arolygu a rheoleiddio eraill. Mae'r broses ymgynghori honno'n mynd rhagddi. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi datblygu gwaith newydd ac rwyf wedi nodi yn y llythyr hwn astudiaethau newydd eraill y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu bwrw ymlaen â nhw cyn diwedd 2014-15. Yr wyf hefyd wedi rhestru isod yr adroddiadau hynny i'w cyhoeddi yn ystod toriad yr haf ac yn gynnar yn nhymor yr hydref i gynorthwyo'r Pwyllgor i gynllunio ei raglen waith ei hun.

Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn dechrau'r broses gynllunio ar gyfer 2015-16 yn gynt na'r disgwyl a byddwn yn ymgynghori â'r Pwyllgor yn yr hydref ynghylch ychwanegu astudiaethau newydd eraill at raglen yr Archwilydd Cyffredinol o ddechrau 2015 ymlaen.


Llinell Uniongyrchol: 02920 320564 E-bost: gillian.body@wao.gov.uk

**Astudiaethau gwerth am arian newydd**

- ***GIG Cymru – Trosolwg o'r gwasanaeth a pherfformiad ariannol***: Fel yr awgrymwyd ym mhapur briffio'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Mawrth 2014, rydym eisoes wedi datblygu darn o waith i adrodd eto ar gyllid iechyd a dangosyddion perfformiad allweddol y gwasanaeth, gan ategu adroddiadau blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor.
- ***Consortia addysg rhanbarthol***: Gan nodi diddordeb aelodau'r Pwyllgor yn y pwnc hwn, rydym wedi bwrw ymlaen ag astudiaeth newydd ar gonsortia addysg rhanbarthol. Mae'r astudiaeth hon wedi cael ei datblygu, ac yn cael ei chyflwyno, ochr yn ochr â gwaith y mae Estyn yn ei wneud i werthuso gwaith y gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol. Bydd ein hastudiaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau ariannol a llywodraethu priodol ar waith er mwyn cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.
- ***Cyfoeth Naturiol Cymru***: Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen ag astudiaeth sy'n edrych ar ddatblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, cyn cadarnhau cwmpas ac amserlen y gwaith hwn, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru gyfleoedd i alinio'r adolygiad hwn gyda gwaith y mae angen i Lywodraeth Cymru ei gyflawni fel rhan o'i hymrwymiad i adolygu trefniadau llywodraethu cyrff newydd a noddir ar ddiwedd eu dwy flynedd gyntaf.
- ***Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol***: Cyfeiriwyd at ddatblygiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol mewn nifer o ymchwiliadau diweddar a gynhaliwyd gan y Pwyllgor, yn fwyaf nodedig fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Er ei bod yn annhebygol o ddechrau cyn chwarter olaf 2014-15, rydym yn bwriadu cynnal astudiaeth i ddarparu adolygiad annibynnol o ddatblygiad cynnar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a thystiolaeth o gynnydd o ran cyflawni ei nodau a'i amcanion strategol.
- ***Rheoli risigau o lifogydd ac erydu:*** Byddai'r astudiaeth hon yn rhoi cyfle i ategu ein hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009 ar Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru ac i edrych ar sut mae newidiadau yn yr hinsawdd yn dylanwadu ar reoli risigau o lifogydd ac erydu. Mae'r gwaith hwn yn debygol o gwmpasu rheoli risgiau o lifogydd mewndirol hefyd – dŵr afonol a dŵr wyneb.

- ***Rôl comisiynwyr yng Nghymru**:* Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn parhau i fod yn awyddus i gynnal adolygiad a allai edrych ar faterion, gan gynnwys trefniadau ar gyfer penodi comisiynwyr, eu perthynas â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, y gwahanol ddulliau y mae comisiynwyr yn eu mabwysiadu tuag at eu gwaith, trefniadau rheoli a llywodraethu cyffredinol ar gyfer gwaith y comisiynwyr, ac unrhyw gyfleoedd i symleiddio swyddogaethau cefn-swyddfa. Mae'r comisiynwyr eu hunain yn gefnogol i adolygiad o'r fath yn gyffredinol. Nodwyd gennym cyn hyn y byddai angen i unrhyw waith yn y maes ystyried yr adolygiad o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru y mae Llywodraeth Cymru yn ei chynnal. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn trafod yr adolygiad hwnnw gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a bydd yn cael ei chynrychioli, gyda statws sylwedydd, ar y panel cynghori sydd wedi cael ei sefydlu i gefnogi'r adolygiad.

Yn ei bapur briffio ym mis Mawrth 2014, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi gofyn iddo ystyried cynnal adolygiad o effeithiolrwydd cyffredinol yr Arolygiaeth a sut yr oedd yn cyflawni yn erbyn ei chynllun gweithredol ar gyfer 2014-15. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn bwriadu cynnwys adolygiad o'r fath yn ei raglen astudiaethau newydd i ddechrau yn 2014-15, yn amodol ar unrhyw gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i adolygu swyddogaethau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mewn ymateb i argymhellion gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyn mynd â'r mater hwn ymhellach, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cwrdd â Ruth Marks i ddeall yn well beth yw cwmpas yr adolygiad annibynnol y gofynnwyd iddi ei gynnal ar ran Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gyflwyno deddfwriaeth i gryfhau cylch gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Efallai y byddai o ddiddordeb i'r Aelodau hefyd wybod bod yr Archwilydd Cyffredinol, ers mis Mawrth 2014, wedi cadarnhau ei raglen astudiaethau llywodraeth leol ar gyfer 2014-15. Bydd y rhaglen yn cynnwys: adolygiad o effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n cefnogi byw'n annibynnol i bobl hŷn; adolygiad 'cyflawni gyda llai' o wasanaethau hamdden; ac adolygiad yn edrych ar wytnwch ariannol ar draws llywodraeth leol yng Nghymru (fel y dywedwyd wrth y Pwyllgor yn ystod ei ystyriaeth o adroddiad *Ymdrin â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Llywodraeth Leol yng Nghymru* a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Ionawr 2014). Mae ein rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol yn y GIG ar gyfer 2014 yn parhau fel y disgrifiwyd ym mhapur briffio'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Mawrth 2014.

**Gwaith sydd ar y gweill**

Rwyf wedi nodi isod yr adroddiadau astudiaethau gwerth am arian rydym yn disgwyl gallu eu cyhoeddi rhwng nawr a diwedd mis Hydref 2014. Disgrifiwyd cwmpas eang y rhan fwyaf o'r darnau hyn o waith ym mhapur briffio'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Mawrth 2014.

- ***Glastir****:* Mae'r adroddiad hwn wrthi'n mynd drwy broses glirio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd (i gadarnhau cywirdeb ffeithiol yr adroddiad) a byddem yn disgwyl iddo gael ei gyhoeddi cyn diwedd toriad yr haf.
- ***GIG Cymru – Trosolwg o'r gwasanaeth a pherfformiad ariannol****:* Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad hwn yn yr hydref.
- ***Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio****:* Bydd yr adroddiad hwn yn mynd drwy'r broses glirio cyn bo hir, gyda'r bwriad o'i gyhoeddi yn yr hydref.
- ***Rhagnodi gan feddygon teulu****:* Bydd yr adroddiad hwn yn mynd drwy broses glirio allanol yn ystod toriad yr haf ac yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.
- ***Gwasanaethau Orthopedig****:* Bydd yr adroddiad hwn yn mynd drwy broses glirio allanol yn ystod toriad yr haf ac yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Yn ogystal â'r astudiaethau gwerth am arian a restrir uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi nodi yn y gorffennol y bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn nhymor yr hydref ar ei ganfyddiadau yn deillio o waith penodol dilynol ar ofal iechyd parhaus ac ar arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion. Byddwn hefyd yn darparu memorandwm ar drefniadau llywodraethu'r GIG, a fydd yn cynnwys sylwadau ar ganfyddiadau ein gwaith 'asesu strwythuredig' mewn cyrff unigol yn y GIG yn ystod 2013-14. Rydym hefyd yn rhagweld cyhoeddi yn yr hydref adroddiadau astudiaeth llywodraeth leol eraill.

Yn olaf, mae ein gwaith ar Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru, a gododd mewn ymateb i bryderon a ddygwyd i sylw'r Archwilydd Cyffredinol yn hydref 2013, yn tynnu at ei derfyn. Rydym wedi parhau i weithio'n agos â gwasanaeth archwilio mewnol Llywodraeth Cymru ac mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhagweld y bydd yn adrodd ar y mater hwn yn ddiweddarach yn ystod hydref 2014.

Gobeithiaf y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Cofion caredig



**GILLIAN BODY**
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFLENWI AR GYFER ABSENOLDEB ATHRAWON**

**Cyhoeddwyd yr Adroddiad 12 Mai 2014**

Mae adroddiad y Pwyllgor yn darparu cyfres o argymhellion buddiol a chynhwysfawr sy'n galw am eu hystyried yn drwyadl a gweithredu'n effeithiol. Fel y dywedwyd yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor mewn ysgrifen ac ar lafar, rydym yn cymryd nifer o gamau rhagweithiol i ymateb i'r argymhellion a gawsom eisoes gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn ar y pwnc hwn. Credwn y bydd y camau hyn yn **mynd cryn bellter** tuag at wireddu'r argymhellion yn eich adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi hefyd bod y cyfrifoldeb am rai o'r camau allweddol yn perthyn i eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a chonsortia, ysgolion ac asiantaethau cyflenwi. Yn benodol, mae hyn yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb sydd ar awdurdodau lleol ac asiantaethau cyflenwi fel cyflogwyr – sef cyfrifoldeb na all Llywodraeth Cymru ei ysgwyddo. Ein hymateb i nifer o'r argymhellion, felly, yw derbyn mewn egwyddor, sy'n cyfleu ein bod yn cytuno â'r argymhelliad ond yn cyfleu hefyd mai cyfyngedig yw gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r argymhelliad. Fodd bynnag, byddwn yn cydweithio â'r sefydliadau a'r rhanddeiliaid hyn i gymryd y camau y tybiwn eu bod mewn gwell sefyllfa i roi sylw iddynt, yn enwedig pan fo hynny'n galw am weithredu ar lefel yr awdurdod lleol a'r ysgol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad, fel y gofynnwyd, yn Ionawr 2015; ond dylid nodi na fydd modd rholi sylw i rai o'r argymhellion ac eithrio dros gyfnod hwy, a byddwn yn nodi'r graddfeydd amser disgwyliedig yn ein hymateb bryd hynny.

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn dosbarthu data perthnasol a dibynadwy am absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth er mwyn gallu monitro nifer yr absenoldebau a'r rhesymau drostynt. (Tudalen 13)

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn derbyn yr angen am ddata ar y mater, er mwyn cynorthwyo ysgolion a chyflogwyr i fonitro a rhoi sylw i absenoldeb. Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan ein bod yn credu y dylai'r data gael eu casglu a'u lledaenu yn lleol gan gyflogwyr.

Rydym eisoes yn casglu a chyhoeddi data gan yr awdurdodau lleol yn flynyddol am absenoldeb salwch. Credwn yn gryf y byddai sefydlu system safonedig ar lefel yr awdurdod lleol, i gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i wella'u dull o olrhain absenoldeb ar sail reolaidd, yn eu helpu i fynd i'r afael â materion absenoldeb penodol – a chredwn mai cyflogwyr sydd yn y sefyllfa orau i sefydlu system o'r fath. Fel y dywedwn yn ein hymateb i argymhelliad 3, ein bwriad yw dyroddi canllawiau a fydd yn gwneud yn eglur i lywodraethwyr bod hawl ganddynt i ofyn i benaethiaid ysgolion am adroddiadau rheolaidd ar faterion absenoldeb. I oleuo adroddiadau o'r fath, bydd angen casglu data manwl-gywir ar y lefel leol.

Llywodraethwyr a phennaeth yr ysgol, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am drefnu bod staff ar gael i gwrdd ag anghenion yr ysgol, a bydd monitro data absenoldeb ar sail reolaidd yn rhan allweddol o'r gwaith o fodloni'r gofyniad hwnnw.

Er ein bod yn barod i ystyried casglu data ychwanegol ynglŷn â'r mater hwn, rhaid inni ystyried hefyd y posibilrwydd y byddai darparu data yn ganolog yn gosod beichiau ychwanegol ar ysgolion ac awdurdodau lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru felly yn cydweithio ag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia i ganfod pa wybodaeth allweddol y dylid ei chasglu, gan bwy, a sut y gellir ei defnyddio ganddynt i reoli absenoldeb athrawon yn well.

Bydd y gwaith yn cynnwys sicrhau bod unrhyw system a gyflwynir yn ategu'r systemau casglu data sydd eisoes ar waith, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Cyhoeddir adroddiad a fydd yn cynnwys canfyddiadau'r gwaith cwmpasu hwn erbyn Rhagfyr 2014.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd y gwahanol fathau o hyfforddiant, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn mis Ionawr 2015. Dylai'r gwerthusiad hwn gynnwys effaith y gwahanol fathau o hyfforddiant ar lefelau absenoldeb athrawon yn yr ystafell ddosbarth. (Tudalen 13)

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Ar 10 Mehefin cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau 'Fargen Newydd' a oedd yn amlinellu ei weledigaeth ar gyfer y dysgu proffesiynol gan yr holl ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion yng Nghymru. I ategu'r Fargen Newydd, datblygwyd y Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol (MDPC), sy'n darparu model eglur a chydlynol o'r mathau o ddysgu proffesiynol sy'n cael yr effaith fwyaf positif a pharhaus ar safonau addysgu.

Bwriedir i'r math hwn o ddysgu proffesiynol fod yn llai dibynnol ar y dull traddodiadol o ddiwrnodau hyfforddi unigol, sydd yn un o achosion

arwyddocaol absenoldeb athrawon. Bydd gwreiddio’r gweithgareddau dysgu proffesiynol  yn yr ysgol ei hunan, er na fydd hynny’n cael gwared ag absenoldeb, yn darparu dull mwy hyblyg ac effeithiol.

Mae egwyddorion yr  MDPC yn seiliedig ar dystiolaeth gyfoes ynghylch dulliau datblygu proffesiynol effeithiol; ac wrth ddatblygu’r model, rydym yn parhau i fanteisio ar dystiolaeth ryngwladol, yn ogystal â thystiolaeth o ysgolion yng Nghymru sydd eisoes yn defnyddio’r dulliau dan sylw. Yn hyn o waith, rydym yn derbyn yr angen i werthuso effeithiolrwydd y modd y cyflenwir yr hyfforddiant, ond nid ydym o’r farn bod angen comisiynu gwerthusiad newydd pan fo’r dystiolaeth eisoes ar gael.  Byddwn yn adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor erbyn Ionawr 2015 ynglŷn â’r dystiolaeth y buom yn manteisio arni, a’r modd y’i defnyddir wrth roi’r MDPC ar waith.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r rheoliadau i wneud yn ofynnol bod o leiaf un aelod o bob corff llywodraethu yn cael ei ddynodi i arwain ar faterion adnoddau dynol, a bod pob aelod o'r fath wedi'i hyfforddi'n briodol i gyflawni'r rôl hon. (Tudalen 15)

Ymateb:  Gwrthod

Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn oherwydd na chaiff y reoliadau wneud yn ofynnol dynodi llywodraethwyr unigol yn arweinwyr ar gyfer mater penodol. Mae yna, fodd bynnag, ddarpariaeth i gyrff llywodraethu ddirprwyo swyddogaethau i bwyllgor neu benderfynu, drwy ddewis, dirprwyo rhai swyddogaethau i unigolyn.

Mae'r Rheoliadau presennol yn gwneud yn ofynnol bod cyrff llywodraethu yn cadw'r cyfrifoldeb, ar lefel y corff llywodraethu llawn, am rai swyddogaethau a dirprwyo swyddogaethau staffio penodol i bwyllgor statudol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â materion AD benodol, h.y. penodiadau, galluogrwydd, anghydfodau, dileu swyddi, disgyblu a diswyddo, a rheoli perfformiad penaethiaid.

Mae'r Rheoliadau eisoes yn caniatáu i gyrff llywodraethu ddirprwyo swyddogaethau, nad ydynt wedi eu dirprwyo i bwyllgor statudol, i'r pennaeth, i lywodraethwr unigol neu i bwyllgor. Yn rhinwedd hynny, gwneir darpariaeth eisoes i gorff llywodraethu ddirprwyo'r swyddogaeth o fonitro absenoldebau staff a threfnu cyflenwi i'r pennaeth, i bwyllgor neu i unigolyn. Mae dirprwyo swyddogaethau i bwyllgor statudol yn creu cost i'r corff llywodraethu gan fod rhaid, drwy gyfraith, penodi clerc ar gyfer bwyllgor o'r fath. Pe gwneid rheoliadau a fyddai'n cynyddu nifer y pwyllgorau statudol, achosid goblygiadau ariannol i'r cyrff llywodraethu, y byddai'n rhaid iddynt gyllido'r clercio.

Yn 2013 bu Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda Llywodraethwyr Cymru i baratoi cylchoedd gorchwyl ar gyfer ystod o wahanol bwyllgorau corff llywodraethu, gan gynnwys pwyllgor staffio. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor staffio yn cynnwys cyfrifoldeb am fonitro absenoldebau'r staff. Byddwn yn cydweithi eto gyda Llywodraethwyr Cymru i sicrhau bod y cylchoedd gorchwyl pwyllgorau yn cael eu rhaeadru i bob ysgol.

O dan gyfraith addysg, yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae'r awdurdodau lleol, yn ddieithriad, yn cynnig rhywfaint o hyfforddiant i lywodraethwyr yn y materion AD y gofynnir yn benodol i lywodraethwyr ymwneud â hwy.

Mae'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr a gyflwynwyd ym Medi 2013 yn cynnwys cyfeiriad at faterion AD. Mae'n egluro beth yw cyfrifoldebau craidd llywodraethwyr, a'r angen i gael polisïau staffio

priodol, cyfoes a pherthnasol, yn ogystal â'r pwyllgorau a'r panelau perthnasol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Rhaid rhoi cyfle i'r hyfforddiant gorfodol presennol sefydlogi cyn ystyried cyflwyno unrhyw hyfforddiant gorfodol pellach. Mae llywodraethwyr eisoes yn neilltuo llawer o'u hamser preifat er mwyn cefnogi eu hysgol. Rhaid, felly, cadw cydbwysedd rhwng y dysgu a'r hyfforddiant a ymgymerir gan lywodraethwyr a'r amser a dreuliant yn cyflawni eu rôl.

Yn rhan o'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae'r consortia rhanbarthol ar ganol datblygu eu gwasanaethau AD rhanbarthol, gan gynnwys y cymorth a'r cyngor a ddarperir i gyrff llywodraethu. Dylai hynny fod o gymorth i gyrff llywodraethu, drwy sicrhau cysondeb yn ansawdd y cymorth a'r cyngor a ddarperir ledled Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at yr awdurdodau lleol a'r consortia i dynnu eu sylw at yr argymhelliad hwn, er mwyn sicrhau bod y mater yn cael ei adlewyrchu yn y gwasanaeth a'r hyfforddiant a ddarperir i lywodraethwyr.

Fel y dywedir yn ein hymateb i argymhelliad 3, byddwn yn dyroddi canllawiau a fydd yn gwneud yn eglur i lywodraethwyr bod hawl ganddynt i ofyn i benaethiaid ysgolion am adroddiadau ar faterion absenoldeb, ac y bydd set o set o ddata cynhwysfawr i alluogi penaethiaid i baratoi adroddiad o'r fath. Bydd y canllawiau'n gwneud y eglur y dylai'r pennaeth adrodd wrth y llywodraethwyr am absenoldeb athrawon, y defnydd o staff cyflenwi ac effaith hynny ar ddysgwyr.

**<u>Argymhelliad 4</u>**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r hyfforddiant (e.e. trwy broses fentora'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth/y flwyddyn gyntaf) a ddarperir i benaethiaid i sicrhau bod

pwyslais ar reoli absenoldeb athrawon. Dylai'r sylw a roddir i reoli absenoldeb gael ei ymgorffori yn natblygiad proffesiynol parhaus penaethiaid hefyd. (Tudalen 17)

**Ymateb:  Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod gan benaethiaid sgiliau a gwybodaeth ddigonol ar gyfer rheoli staff, gan gynnwys absenoldebau o'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn adlewyrchu'r Safonau Arweinyddiaeth cyfredol sy'n gwneud yn ofynnol bod pob pennaeth yn rheoli adnoddau ariannol a dynol yr ysgol yn effeithiol.  Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant ffurfiol  ar gyfer penaethiaid yn uniongyrchol, nac yn pennu cynnwys unrhyw hyfforddiant a ddarperir gan eraill, ac eithrio'r disgwyliad y bydd yn adlewyrchu darpariaethau'r Safonau Arweinyddiaeth

Nid oes, felly, unrhyw hyfforddiant ffurfiol y mae'n ofynnol i bob pennaeth  eu gwblhau. Wrth inni ddatblygu'r ddarpariaeth o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer darpar benaethiaid, penaethiaid sefydledig ac uwch-arweinwyr – naill ai'n uniongyrchol neu, sy'n fwy tebygol, drwy'n partneriaid megis y consortia rhanbarthol – byddwn yn ystyried cynnwys 'rheoli absenoldebau staff' fel un o'r llu elfennau y bydd angen eu cynnwys yn benodol. Byddai unrhyw ymyriad yn digwydd yn unol â'r egwyddorion dysgu proffesiynol effeithiol sy'n tanategu ein dull o ddatblygu ymarferwyr.

Nid yw'r  Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP), a ddarperir fel enghraifft yn argymhelliad y pwyllgor, yn gwrs hyfforddi – proses asesu ydyw yn hytrach, i ganfod a yw ymarferydd yn llwyddo i ddangos ei fod yn bodloni'r Safonau Arweinyddiaeth yn llawn ai peidio. Sail yr asesiad, felly, yw'r Safonau Arweinyddiaeth, sydd eisoes yn cynnwys safonau mewn perthynas â rheoli'r ysgol, a hynny yn ei dro yn cynnwys rheoli materion staffio. Maes o law cynhelir adolygiad ffurfiol o'r Safonau Arweinyddiaeth, a fydd yn ystyried a oes angen eu diwygio ai peidio.

Byddwn yn sicrhau bod y canllawiau arfaethedig ar absenoldeb gweithlu ysgolion, y cyfeirir atynt yn argymhelliad 7, yn cael eu dosbarthu i bob pennaeth. Byddwn yn croesgyfeirio at y canllawiau hyn mewn unrhyw adnoddau perthnasol a baratoir gennym ar gyfer penaethiaid ac eraill i gynorthwyo'u datblygiad proffesiynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar hyd o bryd i'r consortia, i ddarparu mentora a chymorth rhwydweithio i benaethiaid a benodir o'r newydd. Yn rhan o'r ddarpariaeth honno, byddai disgwyl i brifathrawon newydd gael mynediad at ba bynnag gymorth a chyngor angenrheidiol ar reoli absenoldebau staff dosbarth. Byddwn yn cysylltu â'r consortia i dynnu eu sylw at yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag awdurdodau lleol, yn sicrhau, pan gaiff gwasanaethau adnoddau dynol eu caffael gan ysgolion o awdurdodau lleol, bod y cytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu cryfhau er mwyn sicrhau bod penaethiaid a llywodraethwyr yn cael cymorth adnoddau dynol digonol, yn ogystal â hyfforddiant ac arweiniad priodol, fel bod materion adnoddau dynol sy'n ymwneud â staff cyflenwi yn cael eu rheoli'n briodol. (Tudalen 19)

**Ymateb: Derbyn**

Roedd Adolygiad Hill yn nodi bod prinder cyngor AD arbenigol i ysgolion yn fater y dylid rhoi sylw iddo, ac yn awgrymu y byddai fuddiol pe bai arbenigedd unswydd mewn materion AD ar gael i ysgolion wrth ymdrin â materion staffio, h.y. disgyblu, anghydfodau, galluogrwydd a chwynion. roedd yr adroddiad yn argymell y gellid cyflenwi hyn ar lefel y consortia rhanbarthol, i gynorthwyo arweinwyr a llywodraethwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau fel cyflogwyr.

Gyda hyn mewn golwg ac fel rhan integredig o'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae'r consortia rhanbarthol a'u hawdurdodau lleol aelodol ar ganol datblygu model gweithredol safonol ar gyfer gwasanaethau AD, a weithredir o Ebrill 2015 ymlaen. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Arweiniol AD dynodedig y consortia i ddatblygu darpariaeth lefel uchel gyson o gymorth ac arweiniad i ysgolion ym mhob agwedd ar AD, gan gynnwys absenoldeb a'r defnydd o staff cyflenwi. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y gellir ddefnyddio cytundebau lefel gwasanaeth yn effeithiol, a darparu cymorth ar eu cyfer.

Bydd canllawiau penodol ar reoli absenoldeb staff ysgolion yn effeithiol, a baratoir ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia fel ymateb i argymhelliad 7, yn cyfeirio at y gofynion cyfreithiol cyfredol ynglŷn â chyflogi athrawon cyflenwi. Llywodraethir hynny gan gyfuniad o gyfraith y DU ar gyflogaeth (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Gweithwyr Dros Dro) a'r ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Bydd y canllawiau hefyd yn nodi'r rhannau a chwaraeir gan y rhanddeiliaid hyn mewn sicrhau y bodlonir yr amodau cyflogaeth.

**<u>Argymhelliad 6</u>**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

a) amlinellu sut y mae'n disgwyl i Estyn arolygu dosbarthiadau dan arweiniad athrawon cyflenwi, ac adrodd amdanynt;
b) newid y canllawiau ar gyfer arolygiadau Estyn erbyn mis Medi 2014 i'w gwneud yn ofynnol i arolygwyr roi ystyriaeth benodol i'r trefniadau cyflenwi;
c) darparu tystiolaeth glir i'r Pwyllgor bod y dull hwn yn gweithio gan nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg yn y dull hwn, erbyn mis Medi 2015.

Rydym yn disgwyl i'r wybodaeth ddiweddaraf am fanylion y newidiadau i'r canllawiau, a braslun o'r modd y mae'r dull diwygiedig yn gweithio,

gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor erbyn mis Ionawr 2015. (Tudalen 23)

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor oherwydd y cyfan y gall Llywodraeth Cymru ei osod yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer arolygu. Arolygiaeth annibynnol yw Estyn, ac felly mater i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yw penderfynu sut y bydd arolygwyr yn arolygu a pha ganllawiau ar arolygu a ddyroddir gan yr Arolygiaeth. Fodd bynnag, byddwn yn trafod gydag Estyn y cyfleoedd sy'n bodoli o fewn y fframwaith arolygu cyfredol i roi sylw i'r meysydd a argymhellir gan y Pwyllgor.

Byddwn hefyd yn cynnig bod astudiaeth thematig o'r materion ynglŷn â threfniadau cyflenwi yn cael ei hystyried ar gyfer ei chynnwys yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog Addysg a Sgiliau at Estyn ar gyfer 2015/16. Mae'n bosibl y gallai hynny ddatgelu effaith y canllawiau ar reoli absenoldeb staff ysgolion yn effeithiol, y bwriedir eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr hydref eleni.

Os cydsynnir â'r cais ynglŷn â'r cylch gwaith, mae'n debygol y bydd Estyn yn cychwyn ar ei waith cynllunio yn Ebrill 2015 ond ni fyddai'r gwaith maes yn dechrau cyn Medi 2015. Er y byddai Llywodraeth Cymru yn trafod yn rheolaidd gydag Estyn tra byddai'r astudiaeth yn cael ei chynnal, ni fyddem mewn sefyllfa i weithredu ar unrhyw ganfyddiadau neu argymhellion cyn cyhoeddi'r adroddiad arnynt yn 2016.

Byddwn yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y trefniadau hyn yn Ionawr 2015.

**Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen ar gyfer dosbarthu canllawiau ynghylch rheoli trefniadau cyflenwi yn effeithiol, ynghyd â chynllun ar gyfer gwerthuso'r canllawiau hynny. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn erbyn mis Ionawr 2015. (Tudalen 24)

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu canllawiau drafft ar reoli absenoldeb staff mewn ysgolion yn effeithiol. Mae'r canllawiau'n cael eu paratoi ar y cyd ag ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn nodi arferion effeithiol, ac yn seiliedig ar y themâu canlynol:

- rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid
- Rheoli cyflenwi yn effeithiol
- Lliniaru effaith absenoldeb athrawon
- Rheoli presenoldeb ac absenoldeb athrawon yn effeithiol
- Gwybodaeth a chymorth sydd i'w darparu i athrawon a staff eraill sy'n cyflenwi
- Rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol staff
- Rhestr gyfeirio Sicrwydd Ansawdd ar gyfer ysgolion sy'n defnyddio athrawon cyflenwi o asiantaethau ac oddi ar restri awdurdodau lleol.

Bydd y canllawiau drafft yn cael eu dosbarthu i randdeiliaid ar gyfer eu sylwadau erbyn Medi 2014. Disgwylir cyhoeddi'r fersiwn terfynol yn ddiweddarach yn ystod tymor yr hydref.

Byddwn yn trafod gydag Estyn y posibilrwydd o gynnal astudiaeth thematig yn 2015/16 er mwyn canfod i ba raddau y llwyddwyd i fabwysiadu'r canllawiau (cysyllter ag argymhelliad 6)

**Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso ei holl bolisïau, fel datblygu gwahanol fathau o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n dibynnu llai ar fod athrawon yn absennol o'r ystafell ddosbarth, a galwadau'r consortia rhanbarthol ar ysgolion, a'i bod yn ystyried yr effaith a gafodd y rhain ar yr angen am wasanaeth cyflenwi. Gofynnwn i ganlyniad y gwerthusiad gael ei adrodd i'r Pwyllgor erbyn mis Ionawr 2015. (Tudalen 26)

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn cynnal adolygiad o'r hyfforddiant a'r dysgu proffesiynol a ysgogir gan Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio sampl o'r gweithgareddau a gyflenwyd rhwng 1 Ionawr 2014 a Gorffennaf 2014. **Cyflawnir** yr adolygiad naill ai'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru neu o dan drefniant contract.

Bydd yr adolygiad yn:

a. Nodi math ac amlder yr hyfforddiant wyneb yn wyneb a'r gweithgareddau dysgu proffesiynol a ymgymerir gydag athrawon yn ystod y cyfnod hwnnw a'u heffaith ar absenoldeb athrawon.
b. Ystyried cryfderau a gwendidau'r dulliau hynny o weithredu a'u heffaith ar ddysgu proffesiynol.
c. Nodi ffactorau allweddol a dulliau amgen o weithredu y dylid eu hystyried wrth ddatblygu rhaglenni yn y dyfodol.
d. Sicrhau bod y dulliau y dangosir sydd fwyaf effeithiol yn cael eu gwreiddio yn rhan o'r Model Dysgu Proffesiynol.

Defnyddir canfyddiadau'r adolygiad i ddarparu canllawiau i swyddogion, fel y gallant ystyried ystod o opsiynau pan fo mewnbwn gan athrawon yn ofynnol. Dylai'r canllawiau hyn sicrhau y defnyddir ystod o ddulliau a fydd yn lleihau effaith absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth.

Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu rhannu hefyd gyda'r consortia fel y gallant hwythau ystyried eu dull o weithredu ynglŷn â'r mater hwn.

Bydd yr adolygiad wedi ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2014.

**Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus drwy ysgolion ac awdurdodau lleol ar gael i athrawon cyflenwi, ac yn sicrhau eu bod yn datblygu dull effeithiol o roi gwybod i athrawon cyflenwi am y cyfleoedd hyn. (Tudalen 29)

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch rheoliadau a fydd yn gwneud yn ofynnol bod ysgolion yn paratoi cynlluniau datblygu ysgol. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'r trefniadau ar gyfer datblygu holl staff yr ysgol, gan gynnwys y rhai a leolir yn yr ysgol dros dro. Mae hyn yn cynnwys athrawon cyflenwi byrdymor a hirdymor.

Rydym eisoes wedi gweithredu i wella'r mynediad i hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer athrawon cyflenwi, gan gynnwys diwygio cwmpas Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012, a ddaeth i rym ar 1 Medi 2012. Effaith hynny oedd galluogi'r holl athrawon newydd gymhwyso (ANGon) sy'n gwneud gwaith cyflenwi i gymryd rhan mewn ymsefydlu statudol, beth bynnag fo hyd eu lleoliad yn yr ysgol. Mae pob sesiwn ysgol (un hanner diwrnod) bellach yn cyfrif tuag at y cyfnod ymsefydlu statudol, ac mae hynny o fudd arbennig i'r athrawon hynny sy'n gwneud gwaith cyflenwi byrdymor. Rhaid gweithio am 380 o sesiynau i gwblhau'r cyfnod ymsefydlu. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol

Cymru (CACC) i fonitro patrymau'r ymgysylltu ag ymsefydlu ymhlith athrawon cyflenwi, er mwyn gweld a oes angen unrhyw gymorth pellach.

Rydym hefyd wedi cryfhau'r cymorth mentora i'r ANGon hynny sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi. Mae hawl gan bob ANG i gael cymorth gan fentor allanol yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Yn y gorffennol, dyrennid mentor allanol i athrawon cyflenwi byrdymor ar ôl cwblhau 190 sesiwn (cyfwerth â hanner y cyfnod ymsefydlu cyfan). Gan gydnabod mor gyfyngedig yw'r mynediad at fentora o fewn yr ysgol ar gyfer athrawon cyflenwi byrdymor, rydym bellach wedi symud y pwynt sbarduno ymlaen i 50 sesiwn, fel y gellir darparu cymorth gan fentor allanol yn llawer cynt.

Ar gyfer athrawon cyflenwi a oedd y tu allan i gwmpas y rheoliadau yn y gorffennol, ond nad ydynt eto wedi cwblhau eu cyfnod ymsefydlu, rydym wedi cyflwyno trefniadau ôl-weithredol. Yn y gorffennol nid oedd hawl gan yr ANGon hynny a ddechreuodd addysgu cyn Medi 2012 i gael mentor allanol. Rydym bellach wedi unioni hynny drwy ddarparu cymorth mentora i bob un o'r ANGon yr effeithiwyd arnynt.

Rydym hefyd yn dynodi mentoriaid allanol, yn ardal pob consortiwm, a fydd yn arbenigo mewn diwallu anghenion penodol athrawon cyflenwi; ac yn gwneud yn ofynnol bod ALlau yn sicrhau bod athrawon cyflenwi byrdymor sy'n ymsefydlu yn cael cymorth sy'n cyfateb i'r hyn a ddarperir i ANGon sy'n gweithio amser llawn neu ran-amser o fewn yr awdurdod, yn enwedig o ran mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol.

Mae'r 'rheol pum mlynedd' hefyd wedi ei diddymu. Roedd y rheol honno'n pennu bod rhaid i athrawon cyflenwi ac athrawon rhan-amser gwblhau eu hymsefydlu o fewn terfyn amser o bum mlynedd. Nid oes terfyn amser bellach, a chaiff yr amser a gymerir i ymsefydlu adlewyrchu argaeledd gwaith.

Mae rhan neilltuedig o wefan Dysgu Cymru yn cael ei datblygu i gynorthwyo'r ANGon hynny sy'n dilyn y llwybr cyflenwi byrdymor er mwyn cwblhau'r cyfnod ymsefydlu statudol. Bydd y rhan hon o'r wefan yn darparu adnoddau

ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol  a gwybodaeth sy’n berthnasol i’w rôl.

Bydd y Model Dysgu Proffesiynol  (MDP) yn gymwys i bob ymarferydd gan gynnwys athrawon cyflenwi. Bwriad Llywodraeth Cymru yw datblygu ystod o adnoddau o ansawdd uchel a fydd yn tanategu’r MDP ac ar gael i bob ymarferydd drwy Dysgu Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CACC gysylltu â phob un o’r athrawon sy’n datgan eu hunain yn athrawon cyflenwi. Rydym bellach yn sicrhau bod pob un o’r athrawon hynny a gytunodd i dderbyn negeseuon gan Lywodraeth Cymru  yn cael copïau o’r cylchlythyr pythefnosol DYSG . Mae’r cylchlythyr hwnnw’n darparu diweddariadau ar y datblygiadau ar gyfer staff sy’n gweithio yn y sector addysg a hyfforddiant, naill ai cyn-11 neu ôl-11 yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hefyd sut y gellir lledaenu gwybodaeth i athrawon cyflenwi sy’n fodlon derbyn negeseuon yn uniongyrchol am gyfleoedd datblygu proffesiynol a ddarperir gan randdeiliaid yn lleol. Oherwydd ystyriaethau diogelu data, byddai angen caniatâd penodol gan yr unigolion dan sylw i anfon eu manylion cyswllt ymlaen.

Rydym yn cydnabod hefyd bod angen i bob ymarferydd, gan gynnwys athrawon cyflenwi, fod yn gyfrifol am ei ddatblygiad ei hunan, a rhagwelwn y bydd yr adnoddau ar-lein yn hwyluso dysgu proffesiynol o’r fath.

**Argymhelliad 10**

